# Cynllun Datblygu Lleol Newydd Merthyr Tudful 2016 – 2031

Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council




## Cytundeb Cyflawni

Cadarnhawyd gyda Llywodraeth Cymru ym mis Awst 2016










Miss J Jones
Pennaeth Cynllunioa Chefn Gwlad
Cyngor Bwrdeistref Sirol
Merthyr Tudful
Uned 5
Parc Busnes Triongl
Pentrebach
Merthyr Tudful
CF48 4TQ




**Cynnwys** **Tudalen**


| | |
|---|---|
| **1. Cyflwyniad** | **1** |
| **2. Yr Amserlen** | **5** |
| **3. Cynllun Cynnwys Cymunedau** | **9** |
| **Atodiad 1 – Amserlen ar gyfer Adolygu'r CDLl** | **14** |
| **Atodiad 2 – Ymgyngoreion Allanol** | **17** |
| **Atodiad 3 – Penderfyniadau a Dulliau Cyfranogi yn y Camau Allweddol wrth Baratoi'r Cynllun** | **20** |
| **Atodiad 4 – Asesiad Risg** | **28** |
| **Atodiad 5 – Proffil y Boblogaeth** | **29** |
| **Atodiad 6 – Rhestr o'r Rhanddeiliaid Mewnol ac Allanol sy'n Ymwneud â Pharatoi'r Cytundeb Cyflawni** | **39** |
| **Rhestr Termau** | **40** |

# 1.0 RHAGARWEINIAD

## Statws y CDLl a Fabwysiadwyd

1.1 Yn unol â Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (adran 62) mae gofyn i'r holl awdurdodau cynllunio lleol baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar gyfer eu hardal. O ganlyniad, paratôdd y Cyngor y CDLl ar gyfer Merthyr Tudful, ac wedyn, ei fabwysiadu ar 8 Mai 2011. Mae'r CDLl a fabwysiadwyd yn cyflwyno blaenoriaethau'r Cyngor o ran datblygu a defnyddio tir yn y Fwrdeistref Sirol a'i bolisïau ar gyfer eu gweithredu rhwng 2006 a 2021.

1.2 Ers iddo gael ei fabwysiadu, mae'r Cynllun wedi cael ei fonitro'n flynyddol ac mae asesiad sy'n dangos i ba raddau y mae strategaeth, polisïau a safleoedd datblygu'r CDLl yn cael eu cyflawni wedi cael ei gynnwys yn y pedwar Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) a gynhyrchwyd hyd yma.

1.3 Mae adolygiad llawn o'r CDLl wedi cael ei gynnal hefyd a chyflwynwyd y casgliadau mewn adroddiad adolygiad a dderbyniwyd gan y Cyngor ar 20 Ebrill 2016. Mae'r Adroddiad Adolygiad yn nodi faint o newidiadau sydd eu hangen ar y CDLl ac mae'n argymell bod y Cyngor yn dechrau paratoi CDLl newydd gan ddilyn y drefn adolygu lawn. Cafodd y newidiadau a argymhellwyd eu llywio gan gasgliadau'r AMBau blaenorol, diweddariadau i'r sail dystiolaeth ac arolygon parhaus[1].

1.4 Tra bod y CDLl newydd yn cael ei baratoi, mae Cynllun Datblygu Lleol Merthyr Tudful a fabwysiadwyd (Mai 2011) mewn grym o hyd, a bydd yn parhau i ddarparu'r fframwaith polisi drwy yr hwn y caiff ceisiadau cynllunio eu penderfynu. Fel hyn y bydd hi nes i'r CDLl newydd gael ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor.

## Pwrpas y Cytundeb Cyflawni

1.5 Mae'r Cytundeb Cyflawni (CC) hwn yn ddatganiad cyhoeddus o sut a phryd gall rhanddeiliaid a'r gymuned gyfrannu at y gwaith o baratoi'r CDLl newydd, a fydd yn cwmpasu cyfnod y cynllun, sef rhwng 2016 a 2031. Mae'r CC yn cynnwys dwy elfen allweddol:

- **Amserlen** o'r camau allweddol wrth baratoi'r CDLl (gweler Adran 2); a
- **Chynllun Cynnwys Cymunedau** (gweler Adran 3)

1.6 Unwaith y caiff ei gytuno gan Lywodraeth Cymru, mae'r CC yn rhwymo'r Cyngor i gynhyrchu ei CDLl newydd yn unol â'r graddfeydd amser a'r prosesau ymgynghori a bennwyd.

[1] Yn unol ag Adran 61 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, mae gofyn i'r Cyngor gadw materion sy'n effeithio ar ddatblygu yn ei ardal dan sylw.

**Paratoi'r Cytundeb Cyflawni**

1.7 Mae'r Cyngor wedi cyflawni'r gweithredoedd canlynol wrth baratoi'r CC:

- Paratoi CC wedi ei ddiweddaru;
- Ceisio barnau rhanddeiliaid allweddol detholedig ar ddrafft[2];
- Diwygio'r CC yng ngoleuni'r barnau a dderbyniwyd;
- Cael cymeradwyaeth i'r CC gan y Cyngor Llawn;
- Cael Llywodraeth Cymru i gytuno ar y CC; a
- Chyhoeddi'r CC a'i ryddhau ar gyfer archwiliad cyhoeddus.

**Yr Ymagwedd at Baratoi'r CDLl Newydd**

1.8 Wrth baratoi'r CDLl newydd, nod y Cyngor fydd cyflawni amcanion allweddol y system CDLl. Wrth wneud hynny, bydd y Cyngor yn ceisio:

- llawn integreiddio arfarniad o gynaliadwyedd yn y broses o wneud cynllun er mwyn hyrwyddo datblygu cynaliadwy;
- sicrhau cyfranogiad cynnar ac effeithiol gan y gymuned fel y gellir rhoi ystyriaeth i farnau eang eu cwmpas a datblygu consensws cyffredinol;
- mabwysiadu ymagwedd gyflym ac ymatebol at wneud cynllun;
- cynhyrchu cynllun sy'n strategol, yn gryno ac yn unigryw wrth esbonio sut fydd y Fwrdeistref Sirol yn datblygu ac yn newid; a
- chyflawni datblygu cynaliadwy yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o ofynion seilwaith, argaeledd adnoddau, ymarferoldeb a ffactorau marchnad.

1.9 Wrth baratoi'r CDLl newydd, rhoddir ystyriaeth i'r Cyfarwyddebau Ewropeaidd perthnasol; deddfwriaeth, polisi, cynlluniau a chanllawiau gwladol; a chynlluniau a strategaethau lleol a rhanbarthol. Yn benodol, ystyrir sut gall y CDLl newydd ategu Cynllun Integredig Sengl presennol Merthyr Tudful, a'r Cynllun Llesiant Lleol sydd ar ddod, trwy ddarparu mynegiad o ran defnydd tir sy'n rhan o'r weledigaeth a rennir ar sut fydd y Fwrdeistref Sirol yn newid.

1.10 Caiff cynnwys y CDLl newydd ei lywio gan y casgliadau sy'n hanu o amrywiaeth o asesiadau. Bydd casgliadau'r asesiadau a gwybodaeth am sut maent wedi llywio'r gwaith paratoi a/neu gynnwys y CDLl newydd yn cael eu cyhoeddi yn ystod y camau priodol yn y broses o ymgynghori statudol (gweler Atodiad 3). Yn ystod y cyfryw ymarferion ymgynghori, caiff y sawl sy'n dymuno gwneud felly roi ei sylwadau ar yr asesiadau. Mae'r mathau o asesiadau fel a ganlyn:

[2] Mae Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Rheoliadau Diwygio) 2015 wedi dileu'r gofyniad i gyflogi ymgyngoreion wrth baratoi cynllun cynnwys cymunedau neu amserlen ble mae'r dogfennau hynny'n ymwneud â diwygio CDLl.

### Arfarniad o Gynaliadwyedd yn Cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol

1.11 Yn unol ag Adran 62 (6a) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, mae gofyn i'r Cyngor gynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd (AG) ar y CDLl newydd. Yn ychwanegol, yn unol â Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 mae gofyn i'r CDLl newydd fod yn destun Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS). Nod yr AAS yw gwella perfformiad amgylcheddol cynllun a darparu amcanion amgylcheddol strategol, tra bod yr AG yn ystyried effeithiau cymdeithasol ac economaidd cynllun ynghyd â'r effeithiau amgylcheddol. Mae canllawiau gan Lywodraeth Cymru[3] yn nodi y dylai gofynion y Rheoliadau AAS gael eu cynnwys yn yr AG.

1.12 Mae arfarniad o gynaliadwyedd, yn cynnwys asesiad amgylcheddol strategol, yn elfen annatod o bob cam wrth baratoi cynllun, yn cynnwys casglu tystiolaeth, nodi materion, gosod amcanion, gwerthuso opsiynau ac ymgynghori. Gyda'i gilydd maent yn helpu i gyflawni amcanion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol perthnasol.

### Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC)

1.13 Yn unol â Rhan 6 Pennod 8 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010, mae'n rhaid sgrinio ac asesu cynllun yn briodol er mwyn cael gwybod a yw'n debygol o gael effaith sylweddol ar uniondeb safle gwarchodedig Ewropeaidd, fel Ardal Cadwraeth Arbennig, Ardal Gwarchod Arbennig a Safle Ramsar. Cynhelir asesiad sgrinio ar gyfer y CDLl newydd yn y lle cyntaf, a dilynir hwn gan asesiad priodol os oes angen.

### Asesiadau Seiliedig ar Bwnc

1.14 Wrth baratoi'r CDLl newydd, bydd angen cynnal nifer o asesiadau seiliedig ar bwnc a fydd yn helpu i lywio penderfyniadau ar ddewisiadau polisi a dyraniadau tir penodol. Bydd yr asesiadau hyn yn rhan o sail dystiolaeth y CDLl a chânt eu cyflwyno ar y cyd â'r CDLl adneuo newydd i Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio.

### Profion Cadernid

1.15 Nid fydd y Cyngor yn gosod CDLl adneuo newydd ar adnau, ac wedyn ei gyflwyno ar gyfer archwiliad, oni bai yr ystyrir ei fod yn "gadarn".

1.16 Ar ran Gweinidogion Cymru, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn cynnal archwiliad annibynnol o "gadernid" y CDLl adneuo newydd ynghyd â'r dogfennau ategol. Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio'n asesu p'un ai fod y broses o baratoi'r cynllun wedi cydymffurfio â gofynion trefniadol cyfreithiol a rheoliadol, yn cynnwys cadw at y

[3] Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol Argraffiad 2 (Awst 2015)

Cynllun Cynnwys Cymunedau, a bydd yn penderfynu a yw'r cynllun yn bodloni'r tri phrawf cadernid canlynol:

- **Prawf 1 – A yw'r cynllun yn berthnasol?** (h.y. a yw'r CDLl yn cydymffurfio'n glir â chynlluniau eraill?);
- **Prawf 2 – A yw'r cynllun yn briodol?** (h.y. a yw'r cynllun yn briodol ar gyfer yr ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth?); a
- **Phrawf 3 – A fydd y cynllun yn cyflawni?** (h.y. a yw'n debygol o fod yn effeithiol?).

## 2.0 YR AMSERLEN

2.1 Mae'r amserlen yn cyflwyno'r hyn a ystyrir gan y Cyngor yn ffrâm amser heriol, ond realistig, ar gyfer paratoi CDLl newydd. Wrth baratoi'r amserlen mae'n rhaid rhoi sylw i ddisgwyliad Llywodraeth Cymru bod cynllun newydd yn cael ei baratoi o fewn gryn dipyn yn llai na 4 blynedd, gan roi ystyriaeth i'r adnoddau sydd ar gael i'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

**Camau Dangosol a Diffiniol**

2.2 Rhoddir trosolwg o'r prif gamau wrth baratoi cynllun yn Nhabl 1 a darperir amserlen fwy manwl yn Atodiad 1. Mae'r camau wedi cael eu rhannu yn Gamau **Diffiniol** a **Dangosol**.

i. **Camau Diffiniol** – Mae'r rhain yn cynnwys y camau wrth baratoi cynllun hyd at, ac yn cynnwys, y cam adneuo statudol. Mae'r camau hyn dan reolaeth y Cyngor ac fel y cyfryw, maent yn adlewyrchu asesiad realistig o'r hyn y gellir ei gyflawni o fewn graddfeydd amser penodol. Bydd y Cyngor yn rheoli'r prosiect ac yn monitro'r gwaith paratoi ar y CDLl newydd yn agos drwy'r camau hyn, gan wneud pob ymdrech i gadw at yr amserlen ddiffiniedig.

ii. **Camau Dangosol** – Mae'r rhain yn cynnwys yr elfennau hynny o'r broses CDLl ar ôl y cam adneuo statudol a hyd at, ac yn cynnwys, mabwysiadu. Mae gan y Cyngor lai o reolaeth dros y camau hyn o'r broses gan fod ffactorau allanol yn dylanwadu arnynt, fel nifer y cynrychiolaethau a dderbynnir yn ystod y cam adneuo, ac argaeledd, gofynion a chapasiti'r Arolygiaeth Gynllunio. Ar ôl i'r CDLl newydd gyrraedd y cam adneuo, bydd CC wedi ei ddiweddaru gyda graddfeydd amser diffiniol ar gyfer y camau terfynol yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru er mwyn iddi gytuno arno.

| Cam Allweddol wrth Baratoi Cynllun | Graddfa Amser | |
|---|---|---|
| | **O** | **Tan** |
| Cytundeb Cyflawni | Ebrill 2016 | Awst 2016 |
| | Cyngor Llawn – 13 Gorffennaf 2016<br>Cyflwyno i LlC – 14 Gorffennaf 2016 (Ymateb o fewn 4 wythnos) | |
| Cyfranogiad Cyn-adneuo | Medi 2016 | Mehefin 2017 |
| Ymgynghoriad Cyn-adneuo (Strategaeth a Ffefrir) | Gorffennaf 2017 | Awst 2017 |
| | Cyngor Llawn - Mehefin 2017<br>(ymgynghoriad cyhoeddus 6 wythnos) | |

| | | |
|---|---|---|
| Ymgynghoriad Adneuo Statudol (Cynllun Adneuo) | Mehefin 2018 | Gorffennaf 2018 |
| | Cyngor Llawn - Mai 2018<br>(ymgynghoriad cyhoeddus 6 wythnos) | |
| Cyflwyno'r CDLl | Ionawr 2019 | |
| Archwiliad a derbyn Adroddiad yr Arolygydd | Mawrth 2019 | Hydref 2019 |
| Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd | Tachwedd 2019 | |
| Mabwysiadu | Rhagfyr 2019 | |
| | Cyngor Llawn – Rhagfyr 2019 | |

**Tabl 1: Y Camau Allweddol wrth Baratoi Cynllun**

**Rheoli Prosiect ac Adnoddau**

2.3 Bydd y Pennaeth Cynllunio a Chefn Gwlad yn gyfrifol am gyflawniad cyffredinol y CDLl newydd, tra bydd yr Arweinydd Grŵp – Polisi Cynllunio a Gweithredu yn arwain ar reolaeth y prosiect o ddydd i ddydd wrth baratoi a chyflwyno'r Cynllun. Disgrifir yr adnoddau staff sydd ar gael yn y Tîm Polisi yn Nhabl 2 isod. Rhoddir cymorth ychwanegol hefyd gan swyddogion arbenigol yn y Cyngor i gynorthwyo gyda chyflawni'r gwaith AG/AAS a'r asesiadau eraill. Rhagwelir y bydd swyddogion yn darparu cymorth mewn perthynas â'r meysydd canlynol: System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS), Tai, Tirwedd, Ecoleg, Priffyrdd, Draeniad, Treftadaeth a Chadwraeth.

| | |
|---|---|
| Arweinydd Grŵp – Polisi a Gweithredu | 75% |
| Swyddogion Polisi Cynllunio x2 | 100% |
| Swyddog Polisi Cynllunio Rhan-amser x1 | 100% |

**Tabl 2: Adnoddau Staff**

2.4 Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd angen gwasanaethau arbenigol ychwanegol hefyd er mwyn sefydlu sail dystiolaeth gref a fydd yn llywio'r gwaith o baratoi'r Cynllun. Gwnaed asesiad o ba elfennau o'r gwaith o baratoi cynllun fydd yn debygol o alw am

gymorth ymgynghorol allanol ac mae adnoddau ariannol wedi eu sicrhau a'u dyrannu'n briodol. Bydd y posibilrwydd o leihau costau trwy gomisiynu astudiaethau ar y cyd ag awdurdodau cyfagos yn cael ei archwilio hefyd.

2.5 Bydd angen cyllideb amcangyfrifedig o £234,000 i symud y CDLl yn ei flaen at y cam mabwysiadu o fewn y raddfa amser ragnodedig. Bydd y gyllideb hon yn cwmpasu gwariant sy'n gysylltiedig â chomisiynu'r asesiadau seiliedig ar bwnc, costau cynhyrchu'r cynllun a'r costau archwilio.

**Asesiad Risg**

2.6 Er bod y Cyngor o'r farn bod yr amserlen ar gyfer paratoi'r CDLl newydd yn un realistig a chyraeddadwy, mae nifer o ffactorau allai oedi'r broses o baratoi cynllun ac ystyrir bod cynnwys elfen o hyblygrwydd yn gam doeth. Ystyria'r Cyngor felly ei bod yn rhesymol cynnwys cyfnod o hyblygrwydd o hyd at 3 mis rhag ofn bod oedi cyn yr amser pan fydd rhaid cyflwyno adolygiad ffurfiol i'r CC.

2.7 Ceir asesiad risg ar gyfer paratoi'r CDLl newydd, sy'n cynnwys meysydd risg arfaethedig a threfniadau wrth gefn, yn Atodiad 4.

**Canllawiau Cynllunio Atodol**

2.8 Bydd y CDLl newydd yn cynnwys digon o bolisïau a chynigion i ddarparu'r sail ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio. Fodd bynnag, er mwyn osgoi manylder gormodol yn y cynllun, bydd y Cyngor yn defnyddio Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn ddetholus fel dull o roi canllawiau mwy manwl ar y ffordd y dylai polisïau'r cynllun gael eu dehongli a'u cymhwyso mewn amgylchiadau penodol. Ni fydd y CCA yn rhan o'r cynllun ond byddant yn deillio o'r cynllun ac yn cydymffurfio ag ef.

2.9 Ar hyn o bryd, ategir y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd gan chwe nodyn o'r canllawiau cynllunio atodol sy'n cwmpasu'r meysydd canlynol: tai fforddiadwy, rhwymedigaethau cynllunio, dylunio blaenau siopau, dylunio cynaliadwy, natur a datblygu a datblygu deiliaid tai. Mae adolygiad o'r CCAau hyn wedi dangos eu bod yn parhau i fod yn berthnasol; fodd bynnag, ni fydd i ba raddau bydd angen eu diweddaru yn dod i'r amlwg nes i'r cynllun symud ymlaen at baratoi'r cynllun adneuo. Ond bydd y gallu i adolygu'r CCA presennol a enwyd uchod neu i gynhyrchu unrhyw CCA newydd ar y cyd â pharatoi CDLl newydd yn gyfyngedig oherwydd y graddfeydd amser a'r adnoddau sydd ar gael.

2.10 Er gwaethaf yr uchod, nodwyd bod angen diweddaru CCA Nodyn 1: Tai Fforddiadwy a CCA Nodyn 2: Rhwymedigaethau Cynllunio i adlewyrchu tystiolaeth a gaiff ei pharatoi i lywio'r CDLl newydd. Caiff y rhain eu diwygio wrth baratoi'r CDLl newydd. Er nad oes rhaid i'r CCA fynd trwy archwiliad annibynnol, cânt eu paratoi yn unol â darpariaethau'r Cynllun Cynnwys Cymunedau (CCC) am ymgynghoriad cyhoeddus yn y

camau statudol (e.e. adneuo cynigion yn statudol) fel y gall barnau gael ystyriaeth cyn i'r ddogfen gael ei chwblhau a'i chyflwyno i gael ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Cynllunio a Rheoliadol. Ni fydd y cam diwethaf yn digwydd nes bydd Adroddiad yr Arolygydd wedi cael ei dderbyn yn cadarnhau bod dull gweithredu polisi'r CDLl newydd "yn gadarn".

**Monitro ac Adolygu**

2.11 Bydd y Cyngor yn monitro'r cynnydd wrth baratoi'r CDLl newydd yn erbyn gofynion y CC er mwyn sicrhau bod y graddfeydd amser a'r amcanion ymgysylltu â'r cyhoedd yn cael eu bodloni. Bydd angen cytundeb gan Lywodraeth Cymru ar gyfer unrhyw ddiwygiad i'r CC cyn y cam adneuo statudol (yn dilyn ymgynghoriad gyda'r Aelod Portffolio ar gyfer Adfywio, Cynllunio a Chefn Gwlad ac Arweinydd y Cyngor). Mae'r rhesymau arfaethedig dros ddiwygio'n cynnwys:

- Newidiadau sylweddol i'r Cynllun Cynnwys Cymunedau;
- Newidiadau sylweddol i'r adnoddau sydd ar gael i gynnal y gwaith o baratoi cynllun;
- Oedi sylweddol yn y gwaith o baratoi cynllun, h.y. dros 3 mis;
- Cyhoeddi unrhyw Gyfarwyddebau Ewropeaidd newydd perthnasol neu ddeddfwriaeth, rheoliadau neu ganllawiau Llywodraeth Cymru/Y DU sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y broses o baratoi cynllun; ac
- Unrhyw newid arall mewn amgylchiadau sy'n effeithio'n hanfodol ar gyflwyno'r CDLl newydd yn unol â'r cytundeb.

2.12 Caiff yr amserlen ddangosol ei hailddiffinio o fewn 3 mis ar ôl cau'r cyfnod adneuo 6 wythnos statudol. Bydd yr amserlen ddiwygiedig yn adlewyrchu'r cytundeb lefel gwasanaeth rhwng y Cyngor a'r Arolygiaeth Gynllunio a chaiff ei hailgyflwyno i Lywodraeth Cymru fel y gall hon gytuno arni.

## 3.0 CYNLLUN CYNNWYS CYMUNEDAU

3.1 Mae'r rhan hon o'r CC, 'Y Cynllun Cynnwys Cymunedau' (CCC), yn esbonio sut a phryd bydd y Cyngor yn cynnwys y gymuned a rhanddeiliaid eraill yn y gwaith o baratoi'r CDLl newydd. Ei nod yw sicrhau bod y broses yn dryloyw, hwyluso cyfranogiad effeithiol, a datblygu consensws ar y CDLl newydd.

3.2 Mae Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd Ar y Cyd Cwm Taf, a gymeradwywyd gan Fwrdd Cydweithredu Rhanbarthol Cwm Taf ym Mehefin 2014, wedi cael ei mabwysiadu gan y Cyngor Bwrdeistref Sirol. Mae'r strategaeth yn ymrwymo i'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad y Cyhoedd a Safonau Cenedlaethol Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc Cymru. Fel y cyfryw, mae'r egwyddorion canlynol yn llywio'r cynllun cyfranogi hwn:

1. Caiff yr ymgysylltu ei gynllunio fel y bydd yn gwneud gwahaniaeth.
2. Annog a galluogi pawb i gyfranogi, os ydynt yn dewis gwneud felly.
3. Caiff yr ymgysylltu ei gynllunio a'i gyflawni'n amserol ac yn briodol.
4. Gweithio gyda sefydliadau partner perthnasol.
5. Mae gwybodaeth yn rhydd o jargon, yn glir ac yn ddealladwy.
6. Ei gwneud hi'n haws i bobl gymryd rhan.
7. Galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol.
8. Neilltuir yr adnoddau priodol i'r ymgysylltu er mwyn iddo fod yn effeithiol.
9. Mae pobl yn cael gwybod am effaith eu cyfraniad.
10. Dysgu a rhannu gwersi i wella'r broses o ymgysylltu.

3.3 Bydd y cynllun cyfranogi hwn yn defnyddio Hwb Ymgysylltu Cymuned Cwm Taf http://www.cwmtafhub.co.uk/ sy'n caniatáu i bobl weld a sylwi ar yr holl ymgynghori ac ymgysylltu sy'n digwydd ar draws Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. Mae'r 'hwb' hwn yn cynnal 'Panel Dinasyddion' y gellir ei ddefnyddio fel grŵp rheolydd i ystyried p'un ai fod yr ymatebion a dderbyniwyd yn yr ymgynghoriad yn adlewyrchu barn y boblogaeth ehangach.

3.4 Disgrifir rolau'r rhai sy'n gyfrifol am baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol yng Nghyfansoddiad y Cyngor[4].

**Awdurdod Cynllunio Lleol:** Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi ei rymuso'n gyfreithiol i gyflawni swyddogaethau cynllunio trefol statudol o fewn y Fwrdeistref Sirol y tu allan i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

**Gweithrediaeth y Cyngor:** Yr Arweinydd yw'r cynghorydd sy'n ben ar y grŵp gwleidyddol mwyaf a gynrychiolir ar y Cyngor. Yr Arweinydd yw'r aelod uchaf o'r

[4] Cyfansoddiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Cyngor, ac mae'n arwain y broses o wneud penderfyniadau, yn rheoli polisi strategol ac yn llunio cyllidebau. Mae'r Arweinydd yn cadeirio'r Cabinet, yn penodi ei aelodau ac yn neilltuo portffolios i aelodau unigol o'r Cabinet. Mae'r Cabinet yn cynnwys Uwch-Gynghorwyr sydd, yn debyg i weinidogion yn y llywodraeth ganolog, yn penderfynu ar reoli strategol a datblygu polisi. Gelwir y grŵp gwleidyddol sydd â'r nifer ail uchaf o seddau y 'brif wrthblaid'.

**Cynghorwyr:** Cynrychiolwyr a etholwyd yn ddemocrataidd dros bobl Merthyr Tudful ar gyfer materion y Fwrdeistref Sirol gyfan (y mae'r CDLl yn un ohonynt). Mae Cynghorwyr yn gwneud penderfyniadau er budd gorau'r Fwrdeistref Sirol yn ei chyfanrwydd a byddant yn gwneud y penderfyniadau terfynol ar gamau allweddol drwy'r holl broses o baratoi cynllun. Bydd Uwch-Gynghorwyr hefyd yn cyfrannu at Grŵp Llywio'r CDLl. Caiff gweithredoedd y Cynghorwyr eu llywio gan gyngor y Pwyllgor Safonau a'r Cod Ymddygiad Aelodau[5].

**Cyngor Cymuned Bedlinog:** Cynrychiolwyr a etholwyd yn ddemocrataidd dros bobl Bedlinog ar gyfer materion lleol. Bydd y Cyngor Cymuned yn cyfrannu'n sylweddol at unrhyw faterion CDLl a allai gael effaith ar Fedlinog a bydd eu barnau'n cael eu hystyried yn ofalus gan y Cyngor Bwrdeistref Sirol wrth wneud penderfyniadau ar y CDLl. Caiff gweithredoedd Cynghorwyr Cymuned eu llywio hefyd gan y Cod Ymddygiad Aelodau a enwyd uchod.

**Swyddogion Llywodraeth Leol:** Cyflogir swyddogion proffesiynol gan y Cyngor Bwrdeistref Sirol at ddau ddiben:

1. Darparu gwybodaeth a gwneud argymhellion i Gynghorwyr fel y gallant wneud penderfyniadau gwybodus.
2. Gweithredu penderfyniadau a wneir gan y Cynghorwyr.

Caiff gweithredoedd swyddogion eu llywio gan God Ymddygiad Gweithwyr Llywodraeth Leol[6] ac, os ydynt yn aelod o'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol, gan God Ymddygiad Proffesiynol y Sefydliad[7].

3.5 Bydd Cyngor Llawn Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn gwneud penderfyniadau ar y Cynllun Datblygu Lleol oni bai iddo yn gyntaf ddirprwyo ei gyfrifoldeb am benderfyniad i Ddeiliad Portffolio yn y Cabinet neu i Uwch-Swyddog. Mae'r Cyngor Llawn yn cyhoeddi adroddiadau sydd ar fin cael eu hystyried, ar wefan y Cyngor o leiaf wythnos cyn y dyddiad y disgwylir iddynt gael eu hystyried. Caiff cyfarfodydd eu gweddarlledu. Cyn cael ei dderbyn ar agenda'r Cyngor Llawn, caiff pob adroddiad drafft ei ystyried

5 Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008
6 Gorchymyn Cod Ymddygiad (Cyflogeion Cymwys Llywodraeth Leol) (Cymru) 2001 (2001 Rhif 2280)
7 Cod Ymddygiad Proffesiynol y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol

gan Uwch-Swyddogion y Cyngor (yn cynnwys rhai cyfreithiol) ac Arweinydd y Cyngor. Caiff pob adroddiad ei baratoi sawl wythnos o flaen y cyfarfod ffurfiol ble disgwylir iddo gael ei ystyried.

3.6 Caiff y gwaith o baratoi'r CDLl newydd ei gefnogi a'i lywio gan Grŵp Llywio'r Cynllun Datblygu Lleol a Gweithgorau seiliedig ar Faes neu Bwnc. Bydd y Grŵp Llywio'n cynnwys Uwch-Gynghorwyr ac Uwch-Swyddogion y Cyngor a fydd yn ystyried materion allweddol o ran y cynllun a'i arfarniad. Ni fydd gan y Grŵp Llywio unrhyw bwerau gwneud penderfyniadau ffurfiol gan mai nod y grŵp yw cyrraedd consensws ar faterion allweddol a chynorthwyo gyda gwneud argymhellion i'r Cyngor Llawn.

3.7 Sefydlir Gweithgorau seiliedig ar Faes neu Bwnc ar ôl i fynegiadau o ddiddordeb yn y broses CDLl gael eu derbyn. Bydd y grwpiau hyn yn cynorthwyo gyda phennu'r materion allweddol ar gyfer y CDLl, a gyda chynhyrchu a datblygu strategaethau, opsiynau a pholisïau amgen. Yna bydd gwaith y grwpiau hyn yn bwydo i mewn i waith Grŵp Llywio'r CDLl.

3.8 Mae'r Rheoliadau CDLl[8] yn gofyn am gyfranogiad gan gyrff/grwpiau/sefydliadau penodol wrth baratoi'r CDLl. Rhestrir yr ymgyngoreion ‘statudol’ hyn yn Atodiad 2, dan y penawdau Penodol, Amgylcheddol a Chyffredinol. Dylid nodi nad yw'r rhestr o ‘gyrff ymgynghori cyffredinol’ yn un gyflawn a gallai cyrff/grwpiau/sefydliadau perthnasol newydd ddechrau cyfranogi ar ôl i'r CCC gael ei gytuno.

3.9 Gallai'r Cyngor hefyd gynnwys yn ôl ei ddisgresiwn *“y cyfryw bobl eraill y mae'n ymddangos i'r Awdurdod bod ganddynt ddiddordeb mewn materion sy'n gysylltiedig â datblygu yn yr ardal”*. Rhestrir yr ymgyngoreion ‘anstatudol’ hyn hefyd yn Atodiad 2 dan y pennawd ‘ymgyngoreion eraill’. Ni ystyrir bod y rhestr hon yn ddiffiniol ychwaith a chaiff ei diweddaru i gynnwys unigolion a sefydliadau, heb eu henwi hyd yma, sy'n cyfrannu'n weithredol at ‘Gynllunio’ yn lleol.

3.10 Bydd yr holl randdeiliaid a ystyrir ar hyn o bryd yn rhan o ‘gorff ymgynghori cyffredinol’ neu'n ‘ymgynghorai arall’ yn cael eu gwahodd i gymryd rhan yn y broses o baratoi cynllun a'u hychwanegu at y gronfa ddata ymgynghori ble mae mynegiad o ddiddordeb wedi cael ei dderbyn. Bydd y Cyngor yn ymdrechu i sicrhau bod cynrychiolwyr y cyhoedd penodol, fel grwpiau sy'n draddodiadol yn anodd eu cynnwys yn y broses o baratoi cynllun, yn cael eu cynnwys yn ystod y camau allweddol. Os nad yw'n ymddangos bod grwpiau anodd eu cyrraedd yn ymgysylltu yn ôl y disgwyl, bydd y Cyngor yn ystyried dulliau cynnwys amgen.

8 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 / Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygiad) 2015

3.11 Rhestrir y mecanweithiau ar gyfer cynnwys rhanddeiliaid a chymunedau ar bob cam wrth baratoi'r CDLl yn Atodiad 3. Cynlluniwyd y rhain i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad ar y cyd, i ymateb i broffil y boblogaeth (Atodiad 5) ac i gydymffurfio â datganiad o genhadaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (fel y'i disgrifir gan y Prif Weithredwr yn ei flog ar y cynnydd diweddaraf yn y rhaglen newid, Chwefror 2016), sef ei fod yn bwriadu dod yn awdurdod lleol blaengar, a arweinir gan y cwsmer, sy'n uchelgeisiol, ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, gyda'r egwyddorion gweithredu canlynol:

- Gwrando ar ein rhanddeiliaid ac ymgysylltu â nhw;
- Cyfathrebu'n glir;
- Croesawu technoleg ddigidol;
- Canolbwyntio ar y blaenoriaethau a'r canlyniadau allweddol;
- Gweithredu'r strategaeth yn gyson ac yn amserol;
- Mae pawb yn atebol;
- Cysoni'r gyllideb â'r blaenoriaethau allweddol; a
- Hybu annibyniaeth.

3.12 Pan fydd yn ymgymryd â chyfranogiad, bydd y Cyngor yn ceisio esbonio'r prosesau gwneud polisi, yr egwyddorion allweddol sydd wedi eu sefydlu ar lefel genedlaethol, a'r amcanion (a'r targedau) sy'n hanu o Gyfraith Achosion a Pholisi Llywodraeth Cymru. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall cyfyngiadau'r Cynllun Datblygu Lleol, o ran ei gylch gwaith, fod yn ffynonellau rhwystredigaeth ar y lefel leol. Serch hynny bydd y technegau cyfranogi yn ceisio datblygu gwerthfawrogiad o'r rhyngweithio o ran buddiannau'r rhanddeiliaid er mwyn datblygu gwell dealltwriaeth o effeithiau'r opsiynau datblygu a nodi pa randdeiliaid fyddai ar eu hennill neu dan anfantais o'u herwydd.

3.13 Mae gan bob un sydd ynghlwm wrth wneud cynllun a datblygu canllawiau cynllunio atodol gyfrifoldeb i ymgysylltu'n gynhyrchiol. Hynny yw, deall y broses o wneud cynllun, beth gall ac na all y cynllun ddylanwadu arno, ac ymrwymo i wella canlyniadau er budd ehangach y cyhoedd gan gydnabod y goblygiadau amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. Mae'n rhaid i bawb sydd ynghlwm gyfrannu'r wybodaeth a'r dystiolaeth sy'n llywio'u sefyllfa. Mae'r Cyngor yn disgwyl y caiff yr holl farnau a gwybodaeth eu derbyn erbyn y terfynau amser a bennwyd.

3.14 Bydd manylion yr holl weithgareddau cyfranogi ac ymgynghori'n cael eu cynnwys mewn Adroddiad Ymgynghori a gaiff ei ddiweddaru wrth i'r CDLl newydd symud ymlaen drwy'r camau allweddol wrth baratoi cynllun. Trefnir unrhyw gyfranogiad sy'n digwydd y tu allan i'r 'cyfnodau ymgynghori' ffurfiol ar amrywiol ffurfiau, a chaiff yr holl weithgareddau ymgysylltu eu cofnodi a'u dadansoddi. Bydd canlyniadau'r cyfryw

ymgysylltu yn cael eu hychwanegu at yr Adroddiad Ymgynghori. Yn ystod y 'cyfnodau ymgynghori' ffurfiol, bydd y Cyngor yn paratoi dogfen ac yn gofyn am sylwadau ar ffurf 'cynrychiolaethau' neu 'farnau' ar yr adroddiad amgylcheddol. Pan dderbynnir y rhain, cânt eu cydnabod, eu hystyried yn ffurfiol gan y Cyngor, a bydd ymateb yn cael ei gofnodi yn yr Adroddiad Ymgynghori.

3.15 Bydd y Cyngor yn sicrhau bod adborth yn cael ei ddarparu cyn gynted â phosibl ar ganlyniad yr ymgysylltu â'r gymuned a'r ymgynghori ffurfiol drwy gydol y broses o baratoi cynllun. Bydd yr adborth uniongyrchol ar y ffurfiau canlynol:

- Llythyr neu e-bost o gydnabyddiaeth yn darparu manylion cyswllt a gwybodaeth am sut fydd y Cyngor yn delio â'r gynrychiolaeth;
- Manylion unrhyw benderfyniad/ddiwygiad a wnaed a'r rhesymau ategol;
- Manylion y camau nesaf yn y broses o baratoi cynllun;
- Cyfarfodydd ac ymgynghoriadau dilynol ble bo angen; a
- Chylchredeg casgliadau/cofnodion cyfarfodydd blaenorol.

3.16 Bydd y Cyngor yn gwneud ei orau i gadw at yr amserlen gyhoeddedig a bydd yn ceisio sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cael ei chyhoeddi a'i bod ar gael ar amser. Bydd y Cyngor yn cyhoeddi'r cynnydd ar y CDLl i sicrhau bod y rhanddeiliaid a'r gymuned yn cael eu diweddaru'n rheolaidd.

3.17 Gosododd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ddyletswydd ar sefydliadau, yn cynnwys Cynghorau, i gydymffurfio â safonau sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg. Mae llawer o'r safonau'n berthnasol i'r broses o baratoi CDLl newydd, yn enwedig mewn perthynas â'r ffordd y mae'r Cyngor yn rhoi cyhoeddusrwydd i gynigion, yn ymgynghori â'r cyhoedd, yn cyfathrebu â'r rhai hynny sy'n gwneud cynrychiolaeth neu sy'n rhoi barn, ac yn gwneud trefniadau ar gyfer cynnal gweithdrefnau archwilio. Bydd y Cyngor yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg trwy'r broses o baratoi CDLl newydd a bydd yn sicrhau y gall y sawl sydd eisiau cymryd rhan trwy gyfrwng y Gymraeg wneud hynny'n effeithiol.

3.18 Mae'r atodiadau a ganlyn yn darparu rhagor o fanylion am sut a phryd gall rhanddeiliaid a'r gymuned gyfrannu at y broses o baratoi cynllun. Yn benodol, maent yn rhoi'r amserlen ar gyfer paratoi cynllun (Atodiad 1), yn enwi'r rhanddeiliaid y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cynnwys (Atodiad 2), ac yn amlygu'r dulliau cyfranogi arfaethedig yn ystod y camau allweddol wrth baratoi'r Cynllun (Atodiad 3)

# ATODIAD 1 – AMSERLEN AR GYFER ADOLYGU'R CDLL

| Cam Allweddol (Diffiniol) | 2016 | | | | | | | | 2017 | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mai | Meh | Gorff | Awst | Medi | Hyd | Tach | Rhag | Ion | Chwef | Maw | Ebrill | Mai | Meh | Gorff | Awst | Medi | Hyd | Tach | Rhag |
| **Cytundeb Cyflawni (CC)** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Ymgynghoriad Wedi'i Dargedu ar y CC drafft | ■ | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Adroddiad CC i'r Cyngor Llawn (13/07/16) | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cyflwyniadau i Lywodraeth Cymru | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cytunwyd gan Lywodraeth Cymru | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Diweddaru'r Sail Dystiolaeth** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Adolygu/diweddaru'r sail dystiolaeth ar gyfer y Cynllun | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | | | | | | | | | | | | | | | |
| Adolygu/diweddaru'r sylfaen a'r fframwaith arfarnu AG/ AAS | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfranogiad Cyn-Adneuo** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Galwad am safleoedd ymgeiswyr a datblygu cofrestr | | | | | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | | | | | | | | | | |
| Ymgynghoriad ar yr Adroddiad Cwmpasu drafft | | | | | | ■ | ■ | | | | | | | | | | | | | |
| Nodi ac asesu'r opsiynau strategol | | | | | | | ■ | ■ | ■ | | | | | | | | | | | |
| Paratoi'r Strategaeth a Ffefrir, adroddiad AG/AAS ac ARhC | | | | | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | | | | | | | |
| Adrodd ar y Strategaeth a Ffefrir i'r Cyngor Llawn (15/06/17) | | | | | | | | | | | | | | ■ | | | | | | |

| Cam Allweddol (Diffiniol) | 2017 | | | | | | 2018 | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gorff | Awst | Medi | Hyd | Tach | Rhag | Ion | Chw | Maw | Ebrill | Mai | Meh | Gorff | Awst | Medi | Hyd | Tach | Rhag |
| **Ymgynghoriad Cyhoeddus Cyn-Adneuo** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir, Gweledigaeth, Opsiynau Strategol a Pholisïau Allweddol | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Ymgynghoriad ar yr Adroddiad Cynaliadwyedd cychwynnol | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Asesu canlyniad yr ymgynghoriad a pharatoi Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Paratoi Cynllun Adneuo, ac AG/AAS ac ARhC wedi'u diweddaru | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Adrodd ar y Cynllun Adneuo i'r Cyngor Llawn (Mai 2018) | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Adneuo Cynigion yn Statudol** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Ymgynghoriad ar y Cynllun Adneuo, yr Adroddiad AG/AAS a'r dogfennau ARhC | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Asesu canlyniad yr ymgynghoriad a pharatoi Adroddiad Ymgynghori | | | | | | | | | | | | | | | | | | |

| Cam Allweddol (Dangosol) | 2019 | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ion | Chw | Maw | Ebr | Mai | Meh | Gorff | Awst | Medi | Hyd | Tach | Rhag |
| Cyflwyno'r CDLl a'r dogfennau allweddol i Lywodraeth Cymru | | | | | | | | | | | | |
| Cyfarfod Cyn-Gwrandawiad | | | | | | | | | | | | |
| Sesiynau Gwrandawiad | | | | | | | | | | | | |
| Paratoi Adroddiad yr Arolygydd | | | | | | | | | | | | |
| Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd | | | | | | | | | | | | |
| Mabwysiadu | | | | | | | | | | | | |

## ATODIAD 2 – YMGYNGOREION ALLANOL

### CYRFF YMGYNGHORI PENODOL

Bydd y Cyngor yn ymgynghori â'r cyrff ymgynghori penodol canlynol ar bob cam wrth baratoi'r CDLl:

| Cyrff | Awdurdodau Cynllunio Lleol Cyfagos | Electroneg |
|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | Airwave (Cwmni Datrysiadau Motorola) |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | BT Local Business |
| Network Rail Infrastructure Ltd (Cymru a'r Gorllewin – Eiddo) | Cyngor Sir Powys | EE (Mae Everything Everywhere yn cynnwys Orange/ T-Mobile (UK) Ltd) |
| Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | CTIL (Cornerstone Telecommunications Infrastructure Limited (Vodaphone/O2 UK) |
| Cyngor Cymuned Bedlinog | Cynghorau Cymunedau neu Drefi y mae eu hardal yn gyfagos i ffin y Fwrdeistref Sirol | Hutchison 3G UK Limited |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf | | Mono Consultants Limited (Vodaphone/O2 UK) |
| Trwyddedigion Nwy a Thrydan | | |
| Nwy | Trydan | |
| Grid Cenedlaethol | Western Power Distribution (De Cymru a'r Gorllewin) | M&S Energy (a gyflenwir gan SSE) |
| Wales & West Utilities Limited | Budget Energy | OVO Energy |
| Nwy Prydain | Co-operative Energy | Power NI |
| E.ON UK | Ebico Ltd | Sainsbury's Energy (Nwy Prydain) |
| EDF Energy | Ecotricity | Spark Energy Ltd. |
| Npower | First Utility | SSE Energy Supply Limited (Southern Electric/Scottish Hydro/SWALEC/Atlantic) |
| Scottish Power | Good Energy Ltd. | SSE Airtricity Energy Supply Ltd. |
| SSE | Green Energy (UK) PLC | Utilita Energy Limited |
| | iSupply Energy | Utility Warehouse |
| | LoCO2 Energy | |
| Ymgymerwyr Carthffosiaeth a Dŵr | | |
| Dŵr Cymru Welsh Water | | |

### CYRFF YMGYNGHORI AMGYLCHEDDOL:

Ymgynghorir â'r canlynol yn unol â'r Gyfarwyddeb AAS:

| Cyrff Ymgynghori Amgylcheddol |
|---|
| Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Cadw |

### CYRFF YMGYNGHORI CYFFREDINOL:

Ymgynghorir â'r canlynol yn unol â'r Cytundeb Cyflawni:

| Cyrff gwirfoddol, y mae rhai neu bob un o'u gweithgareddau o fudd i unrhyw ran o ardal yr awdurdod | | |
|---|---|---|
| 3Gs Development Trust Merthyr Limited / First Responders | Cyfeillion Parc Taf Bargoed | Cymdeithas Gymunedol Mynwent y Crynwyr |
| Clwb Darby & Joan Aberfan ac Ynysowen | Cyfeillion Cymdeithas Gofal Tŷ Cwm | Cymdeithas Preswylwyr Rocky Park |
| Clwb Canŵio Aberfan | Prosiect Ieuenctid Forsythia | Merthyr Tudful Ddiogelach |
| Cwmni Cydweithredol Cymuned Aberfan ac Ynysowen | Cymdeithas Gymunedol Galon Pen | Ymddiriedolaeth Afonydd De-ddwyrain Cymru |
| Prosiect Ieuenctid a Chymuned Aberfan ac Ynysowen | Grŵp Sefydliad Gellideg | Sustrans |
| Dysgu Oedolion yn y Gymuned Merthyr Tudful | Cymdeithas Denantiaid Georgetown | Stay Young at Heart |
| Lles yr Henoed Aberfan/Ynysowen | Hafal Merthyr | Cymdeithas Bysgota Taf Bargoed |
| Age Connects Morgannwg | Cymdeithas Dai Hafod | Ymddiriedolaeth Datblygu Taf Bargoed Cyf. |
| Barnardos Merthyr | Hendre Group | Teulu Re-enactment Group |
| Going for Green Bedlinog a Threlewis | I.C.I. Rifle Field Sports Association | Sefydliad Bevan |
| Bwrdd Partneriaeth Bedlinog a Threlewis | Grŵp Tenantiaid a Phreswylwyr Kevin Ryan Court | Compact Merthyr Tudful |

| | | |
|---|---|---|
| Pwyllgor Lles Henoed Bedlinog | Mentrau Iaith Cymru – Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | Cymdeithas Gymunedol Trefechan |
| Gofal a Thrwsio Cymru | Banc Bwyd Merthyr Cynon | Cymdeithas Adfywio Treharris |
| Rhwydwaith Strategaeth Gofalwyr | Grŵp Menter Merthyr | Ymddiriedolaeth Gymunedol Treharris (TACT) |
| Cymdeithas Preswylwyr Parc y Castell | Lles Henoed Merthyr (Ward y Dref) | Together Club Treharris |
| Prosiect Cynhwysiant Ieuenctid Merthyr Catch 22 | Fforwm 50+ Merthyr Tudful | Pwyllgor Lles Henoed Trelewis |
| Canolfan Gymunedol Cefn Coed | Cymdeithas Naturiaethwyr Merthyr Tudful a'r Cylch | Partneriaeth Gymunedol Troedyrhiw |
| Fforwm Mudiadau Gwirfoddol Plant a Phobl ifanc | Cymdeithas Bysgota Merthyr Tudful | Cymdeithas Preswylwyr Tŷ Pontrhun |
| Cyngor ar Bopeth Merthyr Tudful | Cynghrair Cymdeithas Bêl-droed Merthyr Tudful | Consortiwm Hyfforddi Tudful |
| Cymunedau'n Gyntaf – Clystyrau Canolbarth, Gogledd a De | Gofalwyr Merthyr Tudful | Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful (VAMT) |
| Cymdeithas Preswylwyr a Thenantiaid Craigyrhendre | Canolfan Gyswllt Plant Merthyr Tudful | Fforwm Cymunedol Y Faenor |
| Grŵp Dydd Cymuned Dowlais | Ffederasiwn Garddwyr Hamdden Merthyr Tudful | Cymdeithas Dai Cymru a'r Gorllewin |
| Cymdeithas Henoed Dowlais | Grŵp Llywio Masnach Deg Merthyr Tudful | Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru |
| Fforwm Datblygu Cymunedol Dowlais | Cymdeithas Dai Merthyr Tudful (MTHA) | Cymdeithas Addysgol y Gweithwyr Merthyr Tudful |
| Grŵp Trigolion Dowlais | Crwydrwyr Cwm Merthyr | Bwrdd Partneriaeth Adfywio Cymuned Ynysowen |
| Rhaglen Ymyrraeth Cyffuriau | Cartrefi Cymoedd Merthyr | Cymru Ifanc – Fforwm Ieuenctid Merthyr Tudful |
| Cymdeithas Gymunedol Fir Tree | Bwrdd Trigolion Gurnos Newydd | |
| Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau hiliol, ethnig neu genedlaethol gwahanol yn ardal yr awdurdod | | |
| Pontydd – (cymuned y sipsiwn / teithwyr ym Merthyr Tudful) | Cymdeithas Cymuned Bwylaidd y Cymoedd (PCVA) | Cyngor Cydraddoldeb y Cymoedd |
| Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau crefyddol gwahanol yn ardal yr awdurdod | | |
| Eglwysi Gyda'i Gilydd yng Nghymru | Cristnogion Yn Erbyn Tlodi | Cymrodoriaeth Gristnogol The Almond Tree |
| Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau pobl anabl yn ardal yr awdurdod | | |
| Cymdeithas Alzheimer (Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf) | MIND Merthyr a'r Cymoedd | Papur Newydd Llafar ar gyfer y Sawl sydd â Nam ar y Golwg Merthyr Tudful |
| Cymorth Canser Merthyr Tudful | Eyelights Merthyr | Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol Cymru (Cangen Merthyr Tudful) |
| Fforwm Iechyd Meddwl Cwm Taf | Cymdeithas Grŵp Cludiant i'r Anabl Merthyr Tudful | Grŵp Mynediad Shopmobility Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| Heartbeat "95" Headway Merthyr | Sefydliad y Deillion Merthyr Tudful (MTIB) | Nam ar y Golwg Merthyr (VIM) |
| Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau diwylliant Cymru yn ardal yr awdurdod | | |
| Celfyddydau Aber Cymru | Grŵp Celf Gates | Cymdeithas Hanesyddol Merthyr Tudful |
| Canolfan a Menter Gymraeg | Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent | Merthyr Tudful (Canolfan Soar) |
| Cymdeithas Gymraeg Beddlwynog | Amgueddfa a Grŵp Treftadaeth Merthyr | |
| Cymdeithas Dic Penderyn | Ymddiriedolaeth Treftadaeth Merthyr Tudful | |
| Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau pobl sy'n rhedeg busnesau yn ardal yr awdurdod | | |

| | |
|---|---|
| Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi | Partneriaeth Canol Tref Treharris |
| Partneriaeth Canol Tref Merthyr Tudful | Canolfan Siopa Sant Tudful |

## YMGYNGOREION ERAILL:

Ymgynghorir â'r unigolion, asiantaethau a mudiadau canlynol yn unol â'r CC.

| | | |
|---|---|---|
| Action on Hearing Loss (yr RNID gynt) | Disability Rights UK | Rail Future Cymru |
| Age Cymru | Pwyllgor Cynghori ar Gludiant i Bobl Anabl | Rathbone Cymru (Sector Ieuenctid) |
| Arriva Trains Cymru | Anabledd Cymru | Redrow Homes |
| Aelodau'r Cynulliad | Diverse Cymru (Cydraddoldeb) | RSPB |
| Barrat Homes | Eglwys Fethodistaidd Wesley Dowlais | Quarry Products Association (Cymru) |
| Belway Homes | Elan Homes | Rail Freight Group (RFG) |
| British Aggregates Association | Asiantaeth Gwasanaethau Amgylcheddol (Gwastraff) | Byddin yr Iachawdwriaeth |
| Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain Cymru | Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru | Shelter Cymru |
| Cymdeithas Ddaearegol Prydain | Undeb Ffermwyr Cymru (FUW) | SCOPE Cymru |
| Busnes mewn Ffocws | Meysydd Chwarae Cymru | SNAP Cymru (Prosiect Cynghori ar Anghenion Arbennig) |
| Busnes yn y Gymuned Cymru | Cymdeithas Cludo Nwyddau | Cyngor Chwaraeon Cymru |
| Gweithredwyr Bysiau a Choetsis | FSB Cymru (Ffederasiwn Busnesau Bach) | Siambr Fasnach De Cymru |
| Cadw | General Aviation Awareness Council (GAAC) | Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru |
| Eglwys Fedyddwyr Calfaria Heolgerrig | Sipsiwn a Theithwyr Cymru | Heddlu De Cymru – Cyngor ar Ddiogelwch gan y Cynghorydd Cynllunio |
| Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (CPRW) | Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch – Cymru a'r De-Orllewin | Eglwys Ysbrydegwyr St Margaret |
| CBI Cymru (Cydffederasiwn Diwydiant Prydain) | Eglwys Fedyddwyr y Stryd Fawr | Eglwys St Mary and the Holy Innocents |
| Chwarae Teg | Eglwys Fedyddwyr Jerwsalem | Eglwys Ffynnon Sant Tudful |
| CILT Cymru – Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ieithoedd | Llamau (Digartref) | Eglwys Sant Pedr a Sant Paul |
| Yr Awdurdod Glo | Lovell Homes | Stonewall Cymru |
| Mudiad Lles Cymdeithasol y Diwydiant Glo (CISWO) | Aelodau Seneddol | Capel y Tabernacl Treharris |
| Cymdeithas Busnes a Thir Gwledig CLA | Partneriaeth Fioamrywiaeth Merthyr Tudful | Tai Cymru – Tai i Gymru |
| Coed Cymru | MPA Cymru (Cymdeithas Cynhyrchion Mwynau) | Taylor Wimpey |
| Menter Gymunedol Cymru | NFU Cymru | Y Coleg Merthyr Tudful |
| Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol | Persimmon Homes | Clymblaid Gyfreithiol Teithwyr a Sipsiwn |
| Comisiynwyr Ystadau'r Goron | Cymorth Cynllunio Cymru | Grŵp Maxion |
| Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf | Yr Arolygiaeth Gynllunio | Transport Focus |
| Cylch – Rhwydwaith Ailgylchu Cymunedol Cymru | Ymgynghorwyr Cynllunio | Tros Gynnal Plant (Plant a Phobl Ifanc) |
| Davies Developments | Daliadau Eiddo'r Swyddfa Bost | Croeso Cymru |
| Comisiwn Dylunio Cymru | Ymddiriedolaeth y Tywysog Cymru | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) |
| Cymdeithas Ymddiriedolaeth Ddatblygu Cymru | Cyrff Proffesiynol | Cyswllt Amgylchedd Cymru |
| Chwaraeon Anabledd Cymru | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Cymdeithas Gwasanaethu Amgylcheddol Cymru |

## ATODIAD 3 – DULLIAU CYNNWYS ARFAETHEDIG A PHENDERFYNIADAU YN YSTOD Y CAMAU ALLWEDDOL WRTH BARATOI CYNLLUN

Mae'r tabl isod yn cyflwyno'r dulliau cynnwys arfaethedig i'w defnyddio ar gyfer y camau allweddol yn y broses o baratoi CDLl ac ar gyfer pob grŵp o randdeiliaid a restrir yn Atodiad 2. Nid yw'r rhestr yn un gyflawn a bydd angen ei haddasu i gynnwys aelodau perthnasol o'r gymuned ar bob cam. Mae'r dulliau penodol a ddefnyddir yn debygol o ddibynnu ar y pwnc, y cam penodol yn y broses o baratoi cynllun, blaenoriaethau'r ymgyngoreion a'r adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor.

| **Cytundeb Cyflawni – Mehefin – Awst 2016** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Manylion y Cyfranogiad** | **Dull** | **Y Grŵp Rhanddeiliaid** | **Canlyniad** | **Penderfyniad CBSMT** | **Mecanwaith adrodd** | **Deddfwriaeth** |
| Ymgynghoriad wedi'i dargedu ar y CC drafft<br><br>Ffocws y cyfranogiad:<br>• Priodoldeb yr amserlen a'r cynllun cynnwys cymunedau.<br>• Nodi cyfleoedd i gydweithredu ar gyfranogiad. | Gohebiaeth uniongyrchol. | Cyrff Ymgynghori Penodol a'r Arolygiaeth Gynllunio | • Sicrhau bod yr amserlen yn realistig a bod Arolygydd Cynllunio ar gael;<br>• Rheoli 'sganio'r gorwel' am risgiau;<br>• Ceisio cytundeb ar faterion allweddol;<br>• Hyrwyddo gweithio ar y cyd; a<br>• Nodi'r rhai hynny nad ydynt yn cymryd rhan fel rheol. | Penderfyniad allweddol CBSMT – mabwysiadu'r CC. | Cyngor Llawn – 13 Gorffennaf 2016. | Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005. Rheoliadau 5 - 10.<br><br>Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygiad) 2015. Rheoliad 2 (3). |
| **Cyfranogiad Cyn-adneuo a Galw am Safleoedd Ymgeisiol – Medi 2016 – Chwefror 2017** | | | | | | |
| **Manylion y Cyfranogiad** | **Dull** | **Y Grŵp Rhanddeiliaid** | **Canlyniad** | **Penderfyniad CBSMT** | **Mecanwaith adrodd** | **Deddfwriaeth** |
| Cyfranogiad wrth baratoi adroddiad cwmpasu Arfarniad o Gynaliadwyedd drafft ac wrth ddatblygu'r weledigaeth, yr amcanion a'r materion allweddol ar gyfer y CDLl | Sesiynau cynnwys rhanddeiliaid / Cyfarfodydd grŵp yn cynnwys:<br>• Grŵp Llywio'r CDLl;<br>• Gweithgorau Seiliedig ar Ardal/Pwnc; a<br>• Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | Pob un | • Codi ymwybyddiaeth o'r broses CDLl.<br>• Cynnwys y rhai hynny nad ydynt fel rheol yn cymryd rhan.<br>• Ceisio cytundeb ar | Materion allweddol, gweledigaeth ac amcanion.<br><br>Methodoleg yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. | Manylion cyfranogiad yn cael eu hychwanegu at yr adroddiad ymgynghori. | Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005. Rheoliad 14. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| newydd.<br><br>Cyfranogi i gael ei gyd-drefnu â hynny i lywio'r gwaith o lunio amcanion Llesiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.<br><br>Ffocws y cyfranogiad yn y (CDLl):<br>• Nodi materion allweddol a ffynonellau gwybodaeth amdanynt;<br>• Nodi cyfleoedd i gydweithredu wrth ddelio â materion allweddol;<br>• Nodi gwybodaeth sylfaenol amgylcheddol;<br>• Nodi cynlluniau, polisïau a rhaglenni perthnasol y mae'n rhaid i'r CDLl roi ystyriaeth iddynt;<br>• Methodoleg fframwaith yr arfarniad o gynaliadwyedd fel sail i'r CDLl;<br>• Nodi gweledigaeth, amcanion ac opsiwn strategol y cynllun; a<br>• Galw am Safleoedd Ymgeisiol a pharatoi Cofrestr o Safleoedd Ymgeisiol. | Cwm Taf<br><br>Codi ymwybyddiaeth drwy:<br>• Hwb Ymgysylltu â'r Gymuned Cwm Taf;<br>• Gwefan Cyngor Merthyr Tudful; a<br>• Thrydar Cyngor Merthyr Tudful;<br><br>Gohebiaeth uniongyrchol.<br>Cyfarfodydd/gweithdai uniongyrchol. | | faterion allweddol: gweledigaeth, amcanion ac opsiynau.<br>• Hyrwyddo gweithio ar y cyd.<br><br>Adroddiad cwmpasu Arfarniad o Gynaliadwyedd drafft.<br><br>Rhestr o Safleoedd Ymgeisiol. | Methodoleg yr Asesiad o Safleoedd Ymgeisiol. | | Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 Rheoliad 12 (5).<br><br>Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygiad) 2015. Rheoliad 14 (2 - 5). |

| Paratoi Strategaeth a Ffefrir – Medi 2016 – Mehefin 2017 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Manylion y** | **Dull** | **Y Grŵp** | **Canlyniad** | **Penderfyniad** | **Mecanwaith** | **Deddfwriaeth** |
| Cyfranogiad wedi'i dargedu yn ystod y gwaith o baratoi tystiolaeth strategol (yn cynnwys safleoedd), mireinio opsiynau'r cynllun a'u harfarnu.<br><br>Arfarnu opsiynau i gynnwys:<br>• Arfarniad o Gynaliadwyedd cychwynnol, yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol<br>• Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd<br>• Asesiad o Effaith Cydraddoldebau<br>• Asesiad o Effaith y Gymraeg | Gohebiaeth uniongyrchol. Cyfarfodydd/gweithdai uniongyrchol. | Pob un fel y bo angen | 'Strategaeth a ffefrir' ac arfarnu opsiynau. | Penderfyniad allweddol gan CBSMT – dewis strategaeth ar gyfer y CDLl a'r rhesymau dros wrthod dewisiadau eraill. | Cyngor Llawn – Mehefin 2017 | Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005. Rheoliad 14, 15 a 16.<br><br>Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygiad) 2015. Rheoliad 16A.<br><br>Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 A62 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 A11).<br><br>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rhan 5.<br><br>Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010. Rheoliad 61.<br><br>Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004. Rheoliad 12 (2) a (3).<br><br>Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Rheoliad 5 a 6.<br><br>Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. A29. |

## Ymgynghoriad 'Cyn-adneuo' Statudol (Strategaeth a Ffefrir) – Gorffennaf – Awst 2017

| Manylion y cyfranogiad | Dull | Y Grŵp Rhanddeiliaid | Canlyniad | Penderfyniad CBSMT | Mecanwaith adrodd | Deddfwriaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymgynghoriad cyhoeddus chwe wythnos ar y 'Strategaeth a Ffefrir' ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd.<br><br>Cyfle agored i roi sylwadau ar y strategaeth a ffefrir ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol.<br><br>Cyfle agored i roi barnau ar arfarniad opsiynau'r Cyngor. | Gohebiaeth uniongyrchol.<br>Codi ymwybyddiaeth drwy:<br>• Hwb Ymgysylltu â'r Gymuned Cwm Taf;<br>• Gwefan Cyngor Merthyr Tudful;<br>• Trydar Cyngor Merthyr Tudful;<br>• Cylchgrawn 'Cyswllt' Cyngor Merthyr Tudful;<br>• Arddangosfeydd cyhoeddus; a<br>• Phosteri / taflenni.<br><br>Dogfennaeth ar gael:<br>• yng Nghanolfan Ddinesig Cyngor Merthyr Tudful;<br>• ar wefan Cyngor Merthyr Tudful; ac<br>• mewn Llyfrgelloedd lleol. | Pob un | Casglu barnau ac arsylwadau profedig ar y 'Strategaeth a Ffefrir' a'i harfarniad o opsiynau. | Amherthnasol | Ychwanegu manylion y cyfranogiad at yr adroddiad ymgynghori.<br><br>Ychwanegu arsylwadau a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad cyn-adneuo at yr adroddiad ymgynghori. | Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005. Rheoliad 15.<br><br>Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004. Rheoliad 13. |

## Paratoi ar gyfer Adneuo – Medi 2017 – Mai 2018

| Manylion y Cyfranogiad | Dull | Y Grŵp Rhanddeiliaid | Canlyniad | Penderfyniad CBSMT | Mecanwaith adrodd | Deddfwriaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfranogiad wedi'i dargedu yn ystod y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd Adneuo (yn cynnwys safleoedd)<br><br>Paratoi a chwblhau tystiolaeth fanwl.<br><br>Ystyried a delio ag arsylwadau a barnau a godwyd yn ystod y cam 'cyn-adneuo' fel y bo'n briodol.<br><br>Paratoi Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cynnwys:<br>• Adroddiad | Cyfarfodydd grŵp yn cynnwys:<br>• Grŵp Llywio'r CDLl;<br>• Gweithgorau Seiliedig ar Ardal/Pwnc; a<br>• Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf.<br><br>Gohebiaeth uniongyrchol.<br>Cyfarfodydd yn ôl disgresiwn | Pob un fel y bo angen. | Y Cynllun Datblygu Lleol Newydd Adneuo | Penderfyniad allweddol CBSMT – Cytuno ar ymateb i'r arsylwadau a wnaed yn ystod y cam 'Strategaeth a Ffefrir', cynnwys y Cynllun Datblygu Lleol Newydd Adneuo a'r rhesymau dros wrthod opsiynau polisi amgen. | Cyngor Llawn – Mai 2018.<br><br>Ychwanegu manylion yr ymgynghoriad wedi'i dargedu ac ymateb cytunedig y Cyngor i arsylwadau a wnaed yn ystod yr ymgynghori cyn-adneuo at yr adroddiad ymgynghori. | Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005. Rheoliad 11, 12 a 13.<br><br>Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 A61 ac A62 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 a11).<br><br>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rhan 5. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| • Amgylcheddol Drafft;<br>• Arfarniad o opsiynau polisi;<br>• Asesiad o Effaith Cydraddoldebau; ac<br>• Asesiad o Effaith y Gymraeg.<br><br>Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac Asesiadau Priodol (os oes angen) | | | | | | Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010. Rheoliad 61.<br><br>Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004. Rheoliad 12 (2) a (3).<br><br>Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Rheoliad 5 a 6.<br><br>Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Adran 29. |

## Ymgynghoriad 'Adneuo' Statudol – Mehefin – Gorffennaf 2018

| Manylion y Cyfranogiad | Dull | Y Grŵp Rhanddeiliaid | Canlyniad | Penderfyniad CBSMT | Mecanwaith adrodd | Deddfwriaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymgynghoriad cyhoeddus chwe wythnos<br><br>Cyfle agored i roi sylwadau ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd Adneuo.<br><br>Cyfle agored i roi barnau ar Arfarniad o Gynaliadwyedd y Cyngor. | Gohebiaeth uniongyrchol.<br>Codi ymwybyddiaeth drwy:<br>• Hwb Ymgysylltu â'r Gymuned Cwm Taf<br>• Gwefan Cyngor Merthyr Tudful;<br>• Trydar Cyngor Merthyr Tudful;<br>• Cylchgrawn 'Cyswllt' Cyngor Merthyr Tudful;<br>• Arddangosfeydd cyhoeddus; a<br>• Phosteri / taflenni.<br><br>Dogfennaeth ar gael:<br>• yng Nghanolfan Ddinesig Cyngor Merthyr Tudful;<br>• ar Wefan Cyngor Merthyr Tudful; ac<br>• mewn Llyfrgelloedd lleol. | Pob un | Casglu cynrychiolaethau a barnau profedig ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd Adneuo a'i ddogfennau arfarnu. | Amherthnasol | Ychwanegu manylion y cyfranogiad at yr adroddiad ymgynghori. | Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005. Rheoliad 17 a 18.<br><br>Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004. Rheoliad 13. |

| Paratoi ar gyfer Archwilio a Chyflwyno'r CDLl Newydd i Lywodraeth Cymru<br>Awst 2018 – Ionawr 2019 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Manylion y Cyfranogiad** | **Dull** | **Y Grŵp Rhanddeiliaid** | **Canlyniad** | **Penderfyniad CBSMT** | **Mecanwaith adrodd** | **Deddfwriaeth** |
| Ymgynghoriad cyhoeddus chwe wythnos arfaethedig ar Newidiadau gyda Ffocws Pendant. | Dogfennaeth ar gael<br>• yng Nghanolfan Ddinesig Cyngor Merthyr Tudful;<br>• ar Wefan Cyngor Merthyr Tudful; ac<br>• mewn Llyfrgelloedd lleol.<br><br>Codi ymwybyddiaeth drwy:<br>• Hwb Ymgysylltu â'r Gymuned Cwm Taf<br>• Gwefan Cyngor Merthyr Tudful<br>• Trydar Cyngor Merthyr Tudful | Pob un | Casglu cynrychiolaethau a barnau profedig ar newidiadau gyda ffocws pendant, os oes angen. | Penderfyniad allweddol gan CBSMT – Cytuno ar ymateb i'r cynrychiolaethau a'r barnau a wnaed ar y cam 'adneuo'.<br><br>Os oes angen rhai, cytuno ar 'Newidiadau gyda Ffocws Pendant' dilynol ar gyfer ymgynghoriad. | Cyngor Llawn – Tachwedd 2018.<br><br>Ychwanegu arsylwadau a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad adneuo at yr adroddiad ymgynghori.<br><br>Ychwanegu'r ymateb cytunedig i arsylwadau a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad adneuo at yr adroddiad ymgynghori.<br><br>Cyflwyno'r Cynllun a'r dogfennau allweddol (Ionawr 2019) | Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005. Rheoliadau 19 -22.<br><br>Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004. Rheoliad 8. |

| Archwilio a Derbyn Adroddiad yr Arolygydd – Mawrth – Tachwedd 2019 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Manylion y Cyfranogiad** | **Dull** | **Y Grŵp Rhanddeiliaid** | **Canlyniad** | **Penderfyniad CBSMT** | **Mecanwaith adrodd** | **Deddfwriaeth** |
| Chwilio am dir cyffredin gyda gwrthwynebwyr i roi ffocws i'r sesiynau gwrandawiad.<br><br>Paratoi ar gyfer, mynychu a chyfrannu at wrandawiadau archwilio.<br><br>Prawf-ddarllen adroddiad cychwynnol yr arolygydd. | Gohebiaeth uniongyrchol/ cyfarfodydd.<br><br>Dogfennaeth ar gael:<br>• yng Nghanolfan Ddinesig Cyngor Merthyr Tudful; ac<br>• ar Wefan Cyngor Merthyr Tudful. | Y rhai sy'n gwneud cynrychiolaethau / cyflwyno barnau. | Helpu i roi ffocws i'r gwrandawiadau archwilio | Cytuno ar dir cyffredin. | Datganiadau ar dir cyffredin. | Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005. Rheoliad 23. |

| Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd – Tachwedd 2019 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Manylion y Cyfranogiad** | **Dull** | **Y Grŵp Rhanddeiliaid** | **Canlyniad** | **Penderfyniad CBSMT** | **Mecanwaith adrodd** | **Deddfwriaeth** |
| Amherthnasol - Er gwybodaeth. | Dogfennaeth ar gael:<br>• yng Nghanolfan Ddinesig Cyngor Merthyr Tudful;<br>• ar Wefan Cyngor Merthyr Tudful; ac<br>• mewn Llyfrgelloedd lleol. | Pob un | Adroddiad gydag argymhellion yn nodi'r newidiadau gofynnol i'r CDLl (yn cynnwys i'r map cynigion) ynghyd â'r rhesymau dros y newidiadau. | Amherthnasol | Amherthnasol | Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005. Rheoliad 24. |

| Mabwysiadu – Rhagfyr 2019 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Manylion y Cyfranogiad** | **Dull** | **Y Grŵp Rhanddeiliaid** | **Canlyniad** | **Penderfyniad CBSMT** | **Mecanwaith adrodd** | **Deddfwriaeth** |
| Amherthnasol - Er gwybodaeth. | Dogfennaeth ar gael:<br>• yng Nghanolfan Ddinesig Cyngor Merthyr Tudful;<br>• ar Wefan Cyngor Merthyr Tudful; ac<br>• mewn Llyfrgelloedd lleol. | Pob un | Fframwaith polisi cynllunio a fabwysiadwyd ar gyfer cynigion datblygu yn Ardal Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. | Penderfyniad allweddol gan CBSMT – Derbyn Adroddiad yr Arolygydd a'i Fabwysiadu. Cyhoeddi datganiad ôl-fabwysiadu. | Cyngor Llawn – Rhagfyr 2019 | Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005. Rheoliad 25.<br><br>Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygiad) 2015. Rheoliad 25A.<br><br>Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004. Rheoliad 16. |

| Adroddiad Monitro Blynyddol – Hydref 2021 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Manylion y Cyfranogiad** | **Dull** | **Y Grŵp Rhanddeiliaid** | **Canlyniad** | **Penderfyniad CBSMT** | **Mecanwaith adrodd** | **Deddfwriaeth** |
| Amherthnasol - Er gwybodaeth. | Dogfennaeth ar gael:<br>• yng Nghanolfan Ddinesig Cyngor Merthyr Tudful; ac<br>• ar Wefan Cyngor Merthyr Tudful. | Pob un | Monitro ac Adolygu'r Cynllun. | Cadarnhau p'un ai fod yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn dangos bod angen adolygu'r Cynllun. | Cyflwyno'r Adroddiad Monitro Blynyddol i CBSMT - y Pwyllgor Craffu Adfywio, Cynllunio a Chefn Gwlad er gwybodaeth yn flynyddol. | Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005. Rheoliad 37.<br><br>Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004. Rheoliad 17. |

## ATODIAD 4 – ASESIAD RISG

Ystyrir bod yr amserlen arfaethedig ar gyfer paratoi cynllun yn realistig ac yn gyraeddadwy o ystyried cwmpas y gwaith mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd ynghlwm, a'r adnoddau sydd ganddo ar hyn o bryd. Tra gwneir pob ymdrech i osgoi gwyro oddi wrth yr amserlen arfaethedig, mae nifer o risgiau posibl wedi cael eu nodi. Cyflwynir y rhain isod ynghyd â dull arfaethedig y Cyngor o'u rheoli. Bydd yr amserlen, ynghyd â'r rhaglen waith ddisgwyliedig a'r adnoddau sydd ar gael, yn cael eu hadolygu'n barhaus i fonitro llithriant posibl neu effeithiau eraill yn ymgodi o'r risgiau a nodwyd neu achosion eraill.

| Risg | Effaith Arfaethedig | Mesurau Lliniaru |
|---|---|---|
| Colli staff ac adnoddau o ganlyniad i arbedion ariannol, salwch, swydd wahanol neu ffactorau eraill. | Staff ac adnoddau'n annigonol i gyflawni'r holl waith sydd ei angen i gadw at yr amserlen a gytunwyd. | Adnoddau ychwanegol, secondiad o awdurdodau eraill. |
| Gofynion ychwanegol yn ymgodi o ddeddfwriaeth neu ganllawiau cenedlaethol newydd. | Angen gwaith ychwanegol, sy'n achosi llithriant yn y rhaglen | Monitro deddfwriaeth/canllawiau datblygol ac ymateb yn gynnar i newidiadau. |
| Gwelir bod yr amserlen yn rhy uchelgeisiol oherwydd llwyth gwaith oedd yn fwy na'r disgwyl e.e. nifer y cynrychiolaethau neu ofynion AAS/ ARhC. | Llithriant yn y rhaglen. | Paratoi amserlen realistig gyda rhywfaint o hyblygrwydd.<br>Ystyried adnoddau ychwanegol. |
| Oedi a achosir gan gylchredau cyfarfodydd, strwythur gwneud penderfyniadau'r Cyngor neu etholiadau lleol. | Llithriant yn y rhaglen. | Paratoi amserlen realistig sy'n rhagweld y rhan fwyaf o'r materion sydd â'r potensial i greu oedi. |
| Y wybodaeth yn annigonol i gynnal AAS ar y cynigion. | Llithriant yn y rhaglen. | Nodi disgwyliadau ymgyngoreion yn y Cytundeb Cyflawni. |
| Oedi a achosir gan Gyfieithu i'r Gymraeg. | Llithriant yn y rhaglen. | Ystyried p'un ai fod angen cyfieithiad. Neilltuo digon o amser i gwblhau gwaith cyfieithu. Ystyried adnoddau ychwanegol. |
| Gwrthwynebiadau sylweddol gan Gyrff Ymgynghori Statudol. | Ni ellir cyflwyno'r CDLl i'w archwilio heb waith sylweddol. | Sicrhau y ceisir barnau cyrff statudol ac ystyried y rhain cyn gynted â phosibl. |
| Anodd cyrraedd consensws, yn cynnwys ar y lefel wleidyddol. | Angen gwaith ychwanegol, gan achosi llithriant yn y rhaglen. | Rhoi sylw cynnar i faterion allai fod yn ddadleuol. Cyfranogiad gan yr holl grwpiau gwleidyddol. |
| Archwiliad yn hirach na'r disgwyl. | Angen mwy o adnoddau/llithriant yn y rhaglen. | Rhoi sylw cynnar i ddatblygu consensws. Sicrhau bod y CDLl yn gadarn, wedi ei osod ar sail dystiolaeth gref gydag arfarniad o gynaliadwyedd ac ymgysylltu gan y gymuned a rhanddeiliaid sydd wedi ei archwilio'n drylwyr. |
| CDLl yn methu'r prawf cadernid. | Ni all y CDLl gael ei fabwysiadu heb waith ychwanegol. | Sicrhau bod y CDLl yn gadarn, wedi ei osod ar sail dystiolaeth gref gydag arfarniad o gynaliadwyedd ac ymgysylltu gan y gymuned a rhanddeiliaid sydd wedi ei archwilio'n drylwyr. |
| Her gyfreithiol. | Llwyth gwaith ychwanegol. Y CDLl a fabwysiadwyd yn cael ei ddiddymu. | Sicrhau cydymffurfiad â gweithdrefnau, deddfwriaeth, rheoliadau. |

## ATODIAD 5 – PROFFIL O BOBLOGAETH CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL

### Cyflwyniad

Y ffynonellau allweddol ar gyfer ystadegau a data ar gyfansoddiad poblogaeth Merthyr Tudful yw:

- Swyddfa Ystadegau Gwladol: https://cy.ons.gov.uk/
- Ystadegau swyddogol y farchnad lafur Nomis: https://www.nomisweb.co.uk/
- Stats Cymru: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/
- Uned Ddata Cymru: http://www.unedddatacymru.gov.uk/home
- Arsyllfa Ddata Cwm Taf: http://cwmtaf.infobasecymru.net/IAS/explorer/resources/
- Arsyllfa Sgiliau De-ddwyrain Cymru: http://www.unedddatacymru.gov.uk/sewso

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (111 Cilometr Sgwâr) yw'r Awdurdod Lleol lleiaf yng Nghymru gan gwmpasu tua 0.5% o ehangdir Cymru (20,780 Cilometr Sgwâr). Mae tua un rhan o bump o'r Fwrdeistref Sirol, a saif o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (PCBB), dan reolaeth gynllunio Awdurdod Cynllunio Lleol PCBB (ACLl). Y ddau ACLl cyfagos yw Caerffili a Rhondda Cynon Taf.

### Disgwyliad Oes

Ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, gallai baban gwrywaidd newydd-anedig ddisgwyl byw am 77.3 blynedd a baban benywaidd newydd-anedig am 80.5 mlynedd. (Ffynhonnell: https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/lifeexpectancies [cyrchwyd ar 16 Mai 2016]).

### Poblogaeth – Amcangyfrifon Canol Blwyddyn o'r Boblogaeth

Cynhyrchir amcangyfrifon poblogaeth gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ac maent yn ystyried genedigaethau, marwolaethau, ac amcangyfrif o ymfudo rhwng y cyfrifiad diwethaf a chanol y flwyddyn gyfredol.

Amcangyfrifir mai 59,065 oedd poblogaeth Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (canol blwyddyn 2014) yn 2014, sef 1.9 y cant o boblogaeth Cymru. Dangosir proffil oedran y boblogaeth leol yn Nhabl 1 isod.

| Awdurdod Lleol | | | | 0 i 15 oed | 16 i 64 oed | Dros 65 oed | Pob oedran |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Merthyr Tudful | | | | 11,017 | 37,473 | 10,575 | 59,065 |
| Merthyr Tudful | Merthyr Tydfil U002 | | | 5,667 | 20,102 | 5,772 | 31,541 |
| | Merthyr Tydfil U002 | Merthyr Tydfil 004 | | 1,185 | 4,265 | 1,208 | 6,658 |
| | | Merthyr Tudful 004 | Cyfarthfa 2 | 421 | 1,104 | 216 | 1,741 |
| | | | Cyfarthfa 3 | 293 | 1,077 | 346 | 1,716 |
| | | | Parc 3 | 231 | 923 | 297 | 1,451 |
| | | | Tref 1 | 240 | 1,161 | 349 | 1,750 |
| | | Merthyr Tudful 005 | | 1,559 | 5,309 | 1,531 | 8,399 |
| | | Merthyr Tudful 005 | Plymouth (Merthyr Tydfil) 3 | 466 | 1,382 | 394 | 2,242 |
| | | | Tref 2 | 580 | 2,007 | 452 | 3,039 |
| | | | Tref 3 | 263 | 957 | 367 | 1,587 |
| | | | Tref 4 | 250 | 963 | 318 | 1,531 |
| | | Merthyr Tudful 006 | | 1,448 | 5,157 | 1,642 | 8,247 |
| | | Merthyr Tudful 006 | Bedlinog 1 | 222 | 877 | 290 | 1,389 |
| | | | Ynysowen 1 | 223 | 731 | 188 | 1,142 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Ynysowen 2 | 269 | 809 | 147 | 1,225 |
| | | | Ynysowen 3 | 239 | 924 | 286 | 1,449 |
| | | | Plymouth (Merthyr Tydfil) 1 | 226 | 834 | 448 | 1,508 |
| | | | Plymouth (Merthyr Tydfil) 2 | 269 | 982 | 283 | 1,534 |
| | | Merthyr Tudful 007 | | 1,475 | 5,371 | 1,391 | 8,237 |
| | | | Bedlinog 2 | 342 | 1,262 | 308 | 1,912 |
| | | | Treharris 1 | 258 | 1,137 | 276 | 1,671 |
| | | Merthyr Tudful 007 | Treharris 2 | 252 | 955 | 252 | 1,459 |
| | | | Treharris 3 | 332 | 981 | 264 | 1,577 |
| | | | Treharris 4 | 291 | 1,036 | 291 | 1,618 |
| | Merthyr Tydfil U003 | | | 5,350 | 17,371 | 4,803 | 27,524 |
| | | Merthyr Tudful 002 | | 1,737 | 6,328 | 1,637 | 9,702 |
| | | | Dowlais 1 | 274 | 959 | 277 | 1,510 |
| | Merthyr Tydfil U003 | Merthyr Tudful 002 | Dowlais 2 | 243 | 1,098 | 313 | 1,654 |
| | | | Dowlais 3 | 342 | 1,283 | 249 | 1,874 |
| | | | Dowlais 4 | 329 | 1,178 | 298 | 1,805 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Penydarren 3 | 294 | 1,028 | 311 | 1,633 |
| | | | Penydarren 4 | 255 | 782 | 189 | 1,226 |
| | | Merthyr Tudful 003 | | 1,460 | 5,343 | 1,646 | 8,449 |
| | | Merthyr Tudful 003 | Cyfarthfa 1 | 445 | 1,325 | 234 | 2,004 |
| | | | Cyfarthfa 4 | 298 | 1,074 | 382 | 1,754 |
| | | | Parc 1 | 185 | 767 | 272 | 1,224 |
| | | | Parc 2 | 233 | 985 | 238 | 1,456 |
| | | | Y Faenor 2 | 299 | 1,192 | 520 | 2,011 |
| | | Merthyr Tudful 008 | | 2,153 | 5,700 | 1,520 | 9,373 |
| | | Merthyr Tudful 008 | Gurnos 1 | 393 | 943 | 229 | 1,565 |
| | | | Gurnos 2 | 398 | 1,078 | 328 | 1,804 |
| | | | Gurnos 3 | 475 | 1,175 | 280 | 1,930 |
| | | | Penydarren 1 | 356 | 807 | 147 | 1,310 |
| | | | Penydarren 2 | 293 | 791 | 218 | 1,302 |
| | | | Y Faenor 1 | 238 | 906 | 318 | 1,462 |

**Tabl 1 – Proffil Oedran Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**

https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Authority/populationestimates-by-localauthority-year

## Dwysedd y Boblogaeth

Mae dwysedd y boblogaeth yn darparu mesur o nifer y bobl sy'n byw mewn ardal. Caiff ei amcangyfrif drwy rannu'r boblogaeth â'r ardal ddaearyddol mewn cilometrau sgwâr. Mae dwysedd y boblogaeth yn uwch mewn ardaloedd trefol, ac yn is mewn ardaloedd gwledig.

Mae ardal awdurdod lleol Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn rhif naw ar y rhestr o boblogaethau mwyaf niferus Cymru (allan o 22) gyda 530 o bobl i bob cilometr sgwâr o arwynebedd tir. O gymharu â chyfartaledd Cymru (149.1), mae dros 3 gwaith cymaint o bobl i bob cilometr sgwâr yn byw yn ardal yr Awdurdod Lleol.

https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Density/populationdensity-by-localauthority-year

## Tarddiad y Boblogaeth fesul Gwlad Enedigol

| **Gwlad Enedigol (2011)** *Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol* | | |
|---|---|---|
| | **Merthyr Tudful** | **Cymru** |
| % y bobl a anwyd yng Nghymru | 88.5 | 72.7 |
| % y bobl a anwyd yn y DU, y tu allan i Gymru | 7.0 | 21.9 |
| % y bobl a anwyd yng Ngwledydd yr Undeb Ewropeaidd | 2.9 | 2.2 |
| % y bobl a anwyd y tu allan i Wledydd yr Undeb Ewropeaidd | 1.6 | 3.3 |

## Newid Rhagamcanol yn y Boblogaeth

Mae rhagamcaniadau poblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau: maent yn dangos beth allai ddigwydd pe byddai'r tueddiadau diweddar mewn genedigaethau, marwolaethau ac ymfudo yn parhau. Mae'r rhagamcaniadau poblogaeth awdurdodau lleol seiliedig ar 2011 i Gymru, 2011 i 2036 yn dangos:

- Cynnydd yn y boblogaeth hŷn (65 oed a throsodd) ymhlith trigolion Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful o 9,856 (16.8 y cant o'r boblogaeth gyfan – 58,851) yn 2011 i 15,796 (25.3 y cant o'r boblogaeth gyfan – 62,434) yn 2036.

- Gostyngiad yn y boblogaeth iau (15 oed ac iau) ymhlith trigolion Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful o 10,969 (18.6 y cant o'r boblogaeth gyfan – 58,851) yn 2011 i 9,787 (15.6 y cant o'r boblogaeth gyfan – 62,434) yn 2036.
- Gostyngiad yn y boblogaeth o oed gwaith (16 i 64 oed) ymhlith trigolion Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful o 38,026 (64.6 y cant o'r boblogaeth gyfan – 58,851) yn 2011 i 36,851 (59 y cant o'r boblogaeth gyfan – 62,434) yn 2036.

https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Projections/Local-Authority/2011-Based/PopulationProjections-By-LocalAuthority-Year

**Ethnigrwydd**

Mae gan bob mudiad sector cyhoeddus ddyletswydd statudol i hybu cydraddoldeb hiliol. Gall ethnigrwydd adlewyrchu nid yn unig anghenion iaith a diwylliannol penodol ond hefyd anghenion iechyd.

Ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2015, nododd yr Arolwg Gweithlu Lleol/ Arolwg Poblogaeth Blynyddol bod 4.5% o bobl yng Nghymru yn dweud eu bod yn dod o gefndir heb fod yn wyn. Y ffigur ar gyfer Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful oedd 2.4%, er y dylid nodi bod y data ar gyfer Merthyr Tudful yn seiliedig ar tua 25 a 40 o ymatebion i'r arolwg ac felly cânt eu hystyried yn ddata o safon isel.

https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/Ethnicity/ethnicity-by-area-ethnicgroup

**Ethnigrwydd (2011)** *Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol*


| | Merthyr Tudful | Cymru |
|---|---|---|
| % Gwyn | 97.6 | 95.6 |
| % Grŵp ethnig cymysg/lluosol | 0.8 | 1.0 |
| % Asiaidd/Prydeinig Asiaidd | 1.2 | 2.3 |
| % Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Prydeinig Du | 0.2 | 0.6 |
| % Grŵp ethnig arall | 0.2 | 0.5 |


## Yr Iaith Gymraeg

Mae'r Arolwg Cenedlaethol i Gymru, 2014-15, yn cynnwys gwybodaeth gan awdurdodau lleol am y gallu i siarad Cymraeg a'r defnydd o'r iaith. Ar sail amcangyfrifon derbyniol, mae'n amlwg bod y gallu i siarad Cymraeg yn is ym mhoblogaeth Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (8%) na'r lefel ar draws Cymru (20%), ac o blith y rhai a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg, roedd cyfran uwch yn gallu siarad ychydig o Gymraeg yn unig yn ardal Merthyr Tudful (41%) nag ar draws Cymru (28%). Ar ben hynny, ymhlith y rhai hynny a all siarad o leiaf ychydig o Gymraeg, mae'n ymddangos y caiff yr iaith ei siarad yn llawer llai aml ym Merthyr Tudful (31% bob dydd) nag ar draws Cymru (51% bob dydd), er nad ystyrir bod yr amcangyfrifon lleol yn hyn o beth yn ddibynadwy, oherwydd maint bychan y sampl.

https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language

**Hunaniaeth**








Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, Arsyllfa Sgiliau De-ddwyrain Cymru.

## Graffiau


Mae'r graffiau canlynol yn dangos detholiad o wybodaeth am boblogaeth Merthyr Tudful mewn perthynas ag addysg a chyflogaeth.

### Lefelau a chymwysterau addysg




ONS Cedwir Hawlfraint y Goron [o Nomis ar 6 Mai 2016


### Cyflogaeth




ONS Cedwir Hawlfraint y Goron [o Nomis ar 21 Ebrill 2016


*Grŵp Soc 2010*
*1: RHEOLWYR, CYFARWYDDWYR AC UWCH-SWYDDOGION*
*2: GALWEDIGAETHAU PROFFESIYNOL*
*3: GALWEDIGAETHAU PROFFESIYNOL A THECHNEGOL CYSYLLTIOL*
*4: GALWEDIGAETHAU GWEINYDDOL AC YSGRIFENYDDOL*
*5: GALWEDIGAETHAU CREFFTAU MEDRUS*
*6: GALWEDIGAETHAU GOFALU, HAMDDEN A GWASANAETHAU ERAILL*
*7: GALWEDIGAETHAU GWERTHU A GWASANAETH CWSMERIAID*
*8: GWEITHREDWYR PROSESAU, PEIRIANWAITH A PHEIRIANNAU*

## Y gyfradd weithgarwch economaidd





ONS Cedwir Hawlfraint y Goron [o Nomis ar 6 Mai 2016


## Y gyfradd gyflogaeth




ONS Cedwir Hawlfraint y Goron [o Nomis ar 6 Mai 2016

**Nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau cymdeithasol**




ONS Cedwir Hawlfraint y Goron [o Nomis ar 6 Mai 2016

ONS Cedwir Hawlfraint y Goron [o Nomis ar 6 Mai 2016

## ATODIAD 6 – RHESTR O'R RHANDDEILIAID MEWNOL AC ALLANOL SY'N YMWNEUD Â PHARATOI'R CYTUNDEB CYFLAWNI

### Rhanddeiliaid Mewnol

Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr

Penaethiaid Gwasanaethau Detholedig

Perfformiad

### Rhanddeiliaid Allanol

Llywodraeth Cymru

Arolygiaeth Gynllunio Cymru

Cyfoeth Naturiol Cymru

Cadw

## RHESTR TERMAU

### Cynllun a Fabwysiadwyd

Dyma gam Terfynol paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol, ble mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn dod yn Gynllun Datblygu statudol, at ddibenion y Ddeddf.

### Mabwysiadu

Dyma'r cadarnhad terfynol o statws cynllun datblygu gan Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl).

### Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB)

Adroddiad a gyflwynir i Lywodraeth Cymru gan yr awdurdodau cynllunio lleol sy'n asesu effeithiolrwydd y CDLl yn erbyn set o ddangosyddion a thargedau.

### Panel Dinasyddion

Mae'r Cyngor wedi sylweddoli mai un o'r ffyrdd gorau o ymgynghori gyda phobl leol yw drwy ei Banel Dinasyddion. Mae'r panel yn cynnwys croestoriad o bobl, a ddewisir ar hap i gynrychioli nodweddion cyffredinol trigolion Merthyr Tudful.

### Cymuned

Pobl sy'n byw mewn ardal ddaearyddol ddiffiniedig, a ystyrir yn uned oherwydd eu diddordebau cyffredin, eu grŵp cymdeithasol neu eu nodweddion.

### Cynllun Cynnwys Cymunedau (CCC)

Mae'r CCC yn nodi sut a phryd mae'r ACLl yn bwriadu cynnwys cyrff ymgynghori a'r cyhoedd yn y gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol. Cyflwynir y CCC i Lywodraeth Cymru fel rhan o'r Cytundeb Cyflawni er mwyn iddi gytuno arno.

### Datblygu consensws

Proses o gynnal deialog cynnar neu gyfryngu o ran safbwyntiau perthnasol neu faterion cymhleth sy'n ymwneud â grwpiau buddiant a dargedir.

### Ymgynghori

Proses ffurfiol lle y gofynnir am sylwadau ar bwnc penodol neu y cynhelir trafodaeth ar bwnc penodol, cyfres o bynciau, neu ddogfen ddrafft.

### Adroddiad Ymgynghori

Adroddiad o'r ymgynghoriad sy'n ofynnol dan Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) Rheoliad 22 pan gaiff y CDLl ei gyflwyno ar gyfer archwiliad annibynnol. Mae'n rhaid cyflwyno adroddiad ymgynghori cychwynnol sy'n cwmpasu'r cam paratoi cynllun cyn-adneuo yn unol â CDLl Rheoliad 17(c).

### Cytundeb Cyflawni

Dogfen sy'n cynnwys amserlen yr Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ynghyd â'i Gynllun Cynnwys Cymunedau, a gyflwynir i Lywodraeth Cymru er mwyn iddi gytuno arno.

### Adneuo

Cam ffurfiol ble mae unigolion a sefydliadau yn cael gwneud cynrychiolaethau ar y Cynllun Datblygu Lleol drafft llawn, yna gall cynrychiolaethau sy'n ymwneud â ph'un ai fod y cynllun yn 'Gadarn' gael eu harchwilio gan Arolygydd.

### Datblygu

Mae datblygu, fel y'i diffinnir mewn cyfraith gynllunio, yn golygu "cynnal gwaith adeiladu, peirianneg, mwyngloddio neu unrhyw weithrediadau eraill mewn, ar, dros neu o dan dir" (Adran 55 o Ddeddf Gynllunio 1990 fel y'i diwygiwyd).

### CDLl Adneuo

Drafft llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys strategaeth hirdymor o ran defnydd tir a datblygu sydd â ffocws ar gyflawni datblygu cynaliadwy, ac sy'n mynd drwy gyfnod ymgynghori ffurfiol.

### Ymgysylltu

Proses sy'n ceisio annog ymgysylltu a chyfranogiad gan y gymuned yn y broses o wneud penderfyniadau.

### Sail Dystiolaeth

Y wybodaeth a'r data a gesglir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol i gyfiawnhau "cadernid" dull gweithredu'r polisi a gyflwynir yn y Cynllun Datblygu Lleol, yn cynnwys nodweddion ffisegol, economaidd, a chymdeithasol ardal.

### Corff Ymgynghori Amgylcheddol

Awdurdod sydd â chyfrifoldebau amgylcheddol ac sy'n rhoi sylw i effeithiau gweithredu cynlluniau a rhaglenni. Mae'n rhaid ymgynghori â'r corff hwn dan y Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol h.y. Cyfoeth Naturiol Cymru a Chadw.

**Archwilio**

Cynhelir archwiliad gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar ran Llywodraeth Cymru ac mae'n cynnwys archwilio'r adroddiad, yr holl gynrychiolaethau adneuo, y Cynllun Datblygu Lleol Adneuo (CDLl) gyda'i dystiolaeth gefndirol, ac Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae'n sicrhau bod y CDLl yn seiliedig ar wybodaeth a meddwl cadarn, a bod barnau'r rhai hynny sydd â phryderon ynglŷn â'r cynllun wedi cael eu hystyried.

**Cyfranogiad**

Mae cynnwys cymunedau yn broses sy'n caniatáu i sefydliad ymgynghori gydag unigolion, sefydliadau, ac endidau llywodraeth, a'u cynnwys cyn gwneud penderfyniad.

**Adroddiad yr Arolygydd**

Casgliadau'r Arolygydd, yn dilyn archwiliad annibynnol o'r Cynllun Datblygu Lleol, a gyflwynir mewn adroddiad sy'n rhwymo'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

**Cynllun Datblygu Lleol (CDLl)**

Mae cynllun defnydd tir yn gynllun sy'n destun archwiliad annibynnol, a bydd hwn yn ffurfio'r cynllun datblygu statudol ar gyfer ardal awdurdod lleol. Dylai gynnwys gweledigaeth, strategaeth, polisïau ardal gyfan ar gyfer mathau o ddatblygiad, dyraniadau tir, a ble bo angen polisïau a chynigion ar gyfer meysydd allweddol o ran newid a gwarchodaeth (sy'n ofynnol dan Ran 6 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004).

**Awdurdod Cynllunio Lleol**

Yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) yw'r Awdurdod Lleol neu'r Cyngor sydd wedi ei rymuso'n gyfreithiol i arfer swyddogaethau cynllunio trefol statudol ar gyfer ardal benodol o'r Deyrnas Unedig.

**Cyfranogi**

Proses, nid digwyddiad unigol, sy'n cynnwys y cyhoedd yn uniongyrchol mewn gwneud penderfyniadau ac sy'n rhoi ystyriaeth lawn i fewnbwn gan y cyhoedd wrth wneud y penderfyniad hwnnw.

**Polisi Cynllunio Cymru (PCC)**

Dogfen a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru ac sy'n esbonio'i pholisïau defnydd tir cenedlaethol mewn gwahanol feysydd cynllunio.

**Cam cyn-adneuo**

Y cam Opsiynau Strategol a Strategaeth a Ffefrir wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol.

**Cynrychiolaethau**

Sylwadau a dderbyniwyd yn cefnogi, neu'n gwrthwynebu'r Cynllun Datblygu Lleol adneuo.

### Cytundeb Lefel Gwasanaeth

Cytundeb rhwng yr Arolygiaeth Gynllunio a'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) mewn perthynas ag archwiliad Cynllun Datblygu Lleol, ac sy'n rhoi graddfeydd amser a chost debygol yr archwiliad ac yn darparu canllawiau clir i'r ACLl ar natur eu cyfrifoldebau eu hunain.

### Dyraniadau safle-benodol

Dyrannu safleoedd ar gyfer defnydd penodol neu ddefnydd cymysg neu ddatblygiad a gwmpasir mewn Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Bydd polisïau yn nodi unrhyw ofynion penodol ar gyfer cynigion unigol. Dangosir dyraniadau ar fap cynigion y CDLl.

### Cadernid

Er mwyn iddo gael ei ystyried yn gadarn, mae'n rhaid i Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) gael ei gyfiawnhau (ar sail tystiolaeth gref a chredadwy a rhaid mai hon yw'r strategaeth fwyaf priodol), a rhaid iddo fod yn effeithiol (cyflenwadwy, hyblyg ac yn addas i gael ei fonitro). Rhoddir tri phrawf cadernid yn y canllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio a bydd y CDLl yn cael ei asesu yn erbyn y rhain.

### Rhanddeiliaid

Mae’r Cynllun Datblygu Lleol (a/neu'r Asesiad Amgylcheddol Strategol) yn effeithio'n uniongyrchol ar fuddiannau'r rhain – cânt eu cynnwys fel arfer drwy gyrff cynrychioliadol.

### Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)

Term generig a ddefnyddir i ddisgrifio asesiad amgylcheddol fel y’i cymhwysir at bolisïau, cynlluniau a rhaglenni. Mae'r Asesiadau AAS yn gofyn am *“asesiad amgylcheddol ffurfiol o gynlluniau a rhaglenni penodol, gan gynnwys y rhai hynny sydd yn y maes cynllunio a defnydd tir*”.

### Cyflwyno

Y cam ffurfiol pan gaiff y Cynllun Datblygu Lleol ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer archwiliad annibynnol gan arolygydd cynllunio a benodwyd gan y llywodraeth.

### Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA)

Gwybodaeth atodol mewn perthynas â'r polisïau a geir mewn Cynllun Datblygu Lleol. Nid yw'r CCA yn rhan o'r cynllun datblygu ac nid ydynt yn destun archwiliad annibynnol, ond rhaid iddynt gydymffurfio â'r cynllun a gyda pholisi cenedlaethol.

### Arfarniad o Gynaliadwyedd (AG)

Dull o arfarnu polisïau a chynigion i sicrhau eu bod yn adlewyrchu amcanion datblygu cynaliadwy (h.y. ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd). Mae’n ofynnol i bob Awdurdod Cynllunio Lleol, yn unol ag Adran 62(6) y Ddeddf, gynnal AG ar y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Mae’r math hwn o AG yn ymgorffori gofynion y Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol yn llawn.

Mae'r term a ddefnyddir yn y CDLl yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol, oni bai y'i nodir yn glir fel arall.

### Datblygu Cynaliadwy

Datblygu sy'n bodloni anghenion y presennol heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion personol.

### Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd

Dogfen y mae'n rhaid ei chynhyrchu fel rhan o'r broses o arfarnu cynaliadwyedd i ddisgrifio ac arfarnu'r effeithiau sylweddol tebygol ar gynaliadwyedd wrth weithredu'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Mae hefyd yn bodloni'r gofyniad am Adroddiad Amgylcheddol yn unol â'r Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol. Dan Adran 62(6) o Ddeddf 2004, mae gofyn i bob Awdurdod Cynllunio Lleol baratoi adroddiad o gasgliadau'r arfarniad o gynaliadwyedd ar y CDLl.

### Cynllun Gofodol Cymru (CGC)

Cynllun a baratowyd ac a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru yn unol ag Adran 60 y Ddeddf, sy'n cyflwyno fframwaith strategol i lywio datblygu yn y dyfodol ac ymyriadau polisi, p'un ai fod y rhain yn berthnasol i reoli cynllunio defnydd tir ffurfiol neu beidio. Yn unol ag Adran 62 (5) (b) y Ddeddf, mae'n rhaid i Awdurdod Cynllunio Lleol ystyried y CGC wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol.

### Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru (MALlC)

Y mesur amddifadedd swyddogol a ddefnyddir mewn ardaloedd bach yng Nghymru. Mae'n fesur cymharol o grynodiadau o amddifadedd ar y lefel ardaloedd bach. Mae'n edrych ar faterion fel incwm, tai, cyflogaeth, mynediad at wasanaethau, iechyd, amgylchedd, addysg a diogelwch cymunedol.

Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council